# Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru

Chwefror 2019
Adroddiad Terfynol

## Paratowyd ar gyfer:

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

## Paratowyd gan:

AECOM Limited
4th Floor, Bridgewater House
Whitworth Street
Manchester M1 6LT
Y Deyrnas Unedig

T: +44 (161) 907 3500
aecom.com

© 2019 AECOM Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan gwmni AECOM Limited (“AECOM”) at ddefnydd ein client (y "Client") yn unig ac yn unol ag egwyddorion ymgynghori derbyniol yn gyffredinol, y gyllideb ar gyfer ffioedd a'r cylch gorchwyl a gytunwyd rhwng AECOM a'r Client. Nid yw unrhyw wybodaeth gan drydydd partïon ac y cyfeiriwn ati yn y ddogfen hon wedi'i gwirio na'i dilysu gan AECOM, oni nodir hynny'n wahanol yn y ddogfen. Ni chaiff unrhyw drydydd parti ddibynnu ar y ddogfen hon heb i AECOM gytuno'n glir ac ysgrifenedig i hynny ymlaen llaw.

# 1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru i sicrhau twf ar draws y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'n ddogfen strategol sy'n disgrifio'r rhaglenni blaenoriaeth sydd eu hangen i sicrhau twf economaidd cynaliadwy, swyddi mwy cynhyrchiol ac i gefnogi cymunedau ffyniannus yn y Canolbarth erbyn 2033.

Mae'r blaenoriaethau, a ddatblygwyd ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, yn cynnig rhaglen gysylltiol o weithgareddau i wella'r economi ar draws y rhanbarth.  Bydd yn ddogfen fyw fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i dywys buddsoddiad yn y dyfodol.

## Amdan Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru'n cynnwys gwahanol gyrff a rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yn y Canolbarth. Fe'i sefydlwyd yn 2015 "i ddatblygu swyddi, twf a'r economi ehangach yng Nghanolbarth Cymru" drwy:

- Ddarparu canlyniadau economaidd gwell ar draws y rhanbarth drwy weithio mewn partneriaeth;
- Arwain dull y rhanbarth o gydweithredu i ddatblygu'r economi;
- Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf economaidd yn y rhanbarth; a
- Darparu llais cryf ar gyfer economi ranbarthol y Canolbarth, sy'n un wledig yn bennaf.

Mae aelodaeth o'r Bartneriaeth yn dod o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gan gynnwys busnesau gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a thwristiaeth, darparwyr Addysg Uwch a Phellach, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Daeth y partneriaid hyn at ei gilydd i roi arweiniad ac i greu gweledigaeth ar gyfer twf yn y Canolbarth, a hefyd i ddylanwadu a hyrwyddo dyfodol y rhanbarth.

Cyflwynir blaenoriaethau twf y Bartneriaeth yn ei Fframwaith ar gyfer Gweithredu. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar y ddogfen hon, ar ôl casglu tystiolaeth bellach, ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth ac adolygu arferion da mewn ardaloedd eraill. Mae'n disgrifio pa flaenoriaethau a ddefnyddir i drawsnewid twf yr economi ac yn sail i arlwyo'r ffordd ar gyfer Bargen Dwf bosib i Ganolbarth Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

# Economi Canolbarth Cymru

Rhanbarth mawr, gwledig yn bennaf yw Canolbarth Cymru sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdod Lleol Powys a Cheredigion. Mae'n cyfrif am 39% o holl dir Cymru ond dim ond tua 7% o'i phoblogaeth. Mae gan y rhanbarth dreftadaeth ddiwylliannol gref a chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'n adnabyddus am ei harddwch naturiol a'i natur anghysbell mewn ardaloedd fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Mynyddoedd Cambria.

## Poblogaeth, tai ac amddifadedd

Yn 2016[1], roedd gan Ganolbarth Cymru boblogaeth o tua 206,000 gyda thwf y boblogaeth ers 2001 yn dangos tuedd amlwg wahanol rhwng Powys (+4.7%) a Cheredigion (-2.1%). Mae ehangder Canolbarth Cymru'n golygu bod dwysedd y boblogaeth yn isel iawn. Nodweddir proffil oed y rhanbarth yn drwm gan breswylwyr 45+ oed, wrth i breswylwyr hŷn symud i mewn i'r ardal i fwynhau ansawdd bywyd uchel yr ardal. Mae preswylwyr iau'r Canolbarth yn tueddu i adael y rhanbarth i fanteisio ar gyfleoedd addysg a gwaith. Yn ôl rhagamcanion ar gyfer poblogaeth yr ardal[2] bydd 16% o leihad yn y boblogaeth oed gweithio a chynnydd o 37% yn y grŵp 65+ oed yng Nghanolbarth Cymru rhwng 2014 a 2039. Mae'r duedd yma'n debygol o arwain at leihad yng ngweithlu'r rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

**Tai**

Mae mynediad at dai fforddiadwy o safon a bod yn berchen ar dŷ yn broblem fawr i breswylwyr yn y Canolbarth. Mewn sawl rhan o'r rhanbarth, mae prisiau tai'n uwch na phrisiau cyfartalog drwy Gymru ac, mewn cymhariaeth â chyflogau cyfartalog, yn llai fforddiadwy o'i gymharu â Chymru'n gyffredinol. Mae'r nifer uchel o dai haf, wedi'i yrru gan dai fforddiadwy mewn cymhariaeth â rhanbarthau eraill, ac ansawdd bywyd uchel y Canolbarth, yn gwaethygu'r broblem yn y farchnad dai leol. Mae heriau eraill yn effeithio ar argaeledd tai. Mae prinder sgiliau yn y diwydiant adeiladu lleol a diffyg diddordeb gan ddatblygwyr mawr mewn codi tai yn y Canolbarth wedi arwain at lefelau cymharol isel o adeiladu tai newydd.

**Amddifadedd**

Mae gan y rhanbarth amddifadedd[3] cymharol isel o'i fesur yn erbyn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), a Phowys yw'r ail ardal Awdurdod Lleol lleiaf difreintiedig yng Nghymru.  Fodd bynnag, nid yw mesurau ystadegol yn tueddu i adnabod gwir natur amddifadedd gwledig.  Mae tlodi yng Nghanolbarth Cymru'n amrywio ac wedi'i guddio'n aml, ac yn ymwneud â natur wledig a demograffeg y rhanbarth.  Mewn ardaloedd gwledig fel Canolbarth Cymru, mae pobl ddifreintiedig yn tueddu i fod wedi eu gwasgaru'n fwy daearyddol nag yn y trefi, ac felly'n aml wedi eu cuddio gan boblogaethau mwy a llai difreintiedig, felly nid yw'r WIMD yna'n gallu adnabod crynodiadau uchel o amddifadedd.  Byddai felly'n fwy buddiol ystyried is-ddangosyddion y WIMD a ffynonellau data perthnasol eraill sy'n dangos lefelau uchel o amddifadedd mewn llawer o drefi ynghyd â materion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau, ynysu a thlodi tanwydd ar draws y rhanbarth:

- Mae dwy Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn y Canolbarth gan olygu bod y rhanbarth yn y 10% gwaethaf ar draws Cymru;
- O edrych ar y Mynegai Cyffredinol, yn 2014 roedd 3.2% o'r ardaloedd LSOA yn y Canolbarth ymhlith yr 20% gwaethaf yng Nghymru;
- Yn 2014 roedd 61.6% o ardaloedd LSOA yn y Canolbarth ymhlith y 20% gwaethaf o ran Mynediad at Wasanaethau yng Nghymru;
- Mae dwy Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn y Canolbarth yn y 10% gwaethaf ar draws Cymru – Ystradgynlais ac Aberteifi;
- Yn 2014 roedd bron i un o bob pump (19.2%) o ardaloedd LSOA yn y Canolbarth ymhlith y 20% gwaethaf ar gyfer Tai yng Nghymru.

[1] Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2016, ONS
[2] Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth 2014 ar sail awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
[3] Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru

## Sgiliau ac economi

**Dysgu, sgiliau a chymwysterau**

Mae Canolbarth Cymru'n perfformio'n dda o ran cyflawniad addysgol, gyda chanlyniadau TGAU yn well na'r cyfartalog ar draws Cymru. Mae cyfran y bobl ifanc Heb Fod Mewn Gwaith, Addysg na Hyfforddiant (NEET) ym Mhowys yn isel ac mae lefel cymwysterau pobl mewn oed i weithio hefyd yn galonogol, yn well na'r cyfartalog drwy Gymru ac wedi codi'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf. Mae lefel hawlio budd-daliadau diweithdra hefyd yn isel, gyda dim ond 0.6% o'r boblogaeth mewn oed i weithio yn y rhanbarth yn hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith[4].

Er y cryfderau hyn, mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn adrodd bod trafferthion recriwtio a bwlch sgiliau'n broblemau cyffredin gan gyflogwyr yn y Canolbarth. Mae nifer y prentisiaethau'n gostwng a darparu addysg bellach wedi'i lesteirio gan natur wledig y rhanbarth. Ar yr un pryd, mae buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant yn gymharol isel, efallai'n adlewyrchu'r gyfran uchel o fusnesau bach a chanolig (BBaCh) eu maint.

**Yr Economi**

Mae Canolbarth Cymru'n wynebu cryn her o ran cynhyrchedd. Mae gwerth ychwanegol crynswth (GVA) y rhanbarth, sy'n mesur gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, ymhlith yr isaf yn y DU gan weld gostyngiad o 1.5% yn 2017 ynghyd â gostyngiad o 2.9% mewn GVA 'gwirioneddol'[5]. Mae GVA am bob awr a weithir, sy'n ystyried gweithlu'r ardal, hefyd yn dangos hyn a bod Powys yn llusgo ar ôl gweddill Cymru a'r DU yn hyn o beth – 65% yw'r ffigur cyfartalog ar gyfer y DU. Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y tueddiadau hyn yn gymhleth ac yn cynnwys gwaith tymhorol a sectorau gwerth ychwanegol isel ar draws y rhanbarth. Er hyn, mae gan Ganolbarth Cymru nifer o gryfderau sector a allai sbarduno twf economaidd yn y dyfodol. Er enghraifft:

- Twristiaeth – mae Strategaeth Dwristiaeth Llywodraeth Cymru a'r fenter Ffordd Cymru'n nodi potensial y sector a'r dyhead am weld twf o 10% yng ngwerth twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020. Mae cyfle i adeiladu ar asedau naturiol y rhanbarth er mwyn arallgyfeirio a chynyddu gwerth sector twristiaeth y rhanbarth.
- Gweithgynhyrchu – cyflogir dros 6,600 o bobl yn y sector gweithgynhyrchu yn y Canolbarth, eu hanner yn y sector uwch-weithgynhyrchu. Mae gan y rhanbarth is-sectorau gweithgynhyrchu arbenigol fel awtomatiaeth a pheirianneg symudiad, wedi eu cysylltu i gwmnïau blaenllaw fel Nidec Control Techniques ac Invertek Drives. Mae gwyddorau bywyd hefyd yn gryfder gyda chwmnïau fel Protherics UK Ltd, Cellpath ac Aber Instruments yn yr ardal.
- Amaethyddiaeth a'r economi tir – mae'r sector yma'n rhan flaenllaw o economi Canolbarth Cymru gan gyflogi dros 58,000 o bobl a chwarae rhan bwysig yn niwylliant a chymunedau'r rhanbarth. Mae'r sector yn wynebu heriau ac ansicrwydd sylweddol o ganlyniad i BREXIT. Mae cyfle i arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at y sector amaethyddol drwy barhau i gefnogi arallgyfeirio; ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol; ac ecsbloetio cryfderau ymchwil a datblygu Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan Bwyd Cymru.
- Amddiffyn a diogelwch – mae Canolbarth Cymru'n lle pwysig ar gyfer gweithgareddau amddiffyn y DU gan fanteisio ar natur anghysbell a safleoedd diogel y rhanbarth. Mae'r rhanbarth yn gartref i weithgareddau amddiffyn arloesol, gydag awyrofod neilltuol ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS) oddi ar arfordir Gorllewin Cymru. Mae'r ardal hefyd yn gartref i weithgareddau uwch-weithgynhyrchu'n ymwneud ag amddiffyn a diogelwch. Mae yma hefyd gryfderau academaidd sy'n rhoi cyfle i gadarnhau Canolbarth Cymru fel canolfan ar gyfer y diwydiant amddiffyn a diogelwch.
- Y sectorau sylfaen – ar sail demograffeg hirdymor y rhanbarth, bydd pwysigrwydd economi'r sectorau sylfaen yn tyfu'n sylweddol. Oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio, bydd pwysau cynyddol ar wasanaethau'r sectorau cymdeithasol a gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'r duedd hon hefyd yn rhoi cyfle gwirioneddol i gyflwyno dulliau cadarnhaol o ateb yr her o ddarparu gwasanaethau ac yn ffordd o harneisio sgiliau a phrofiad y genhedlaeth hŷn yng Nghanolbarth Cymru.

---

[4] Ffynhonnell: NOMIS, ONS, Ebrill 2018
[5] Ffynhonnell: ONS, Rhagfyr 2018

## Seilwaith

**Trafnidiaeth**

Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn y Canolbarth yn cynnwys rhwydwaith o ffyrdd A a B un lôn a nodweddir gan siwrneiau ara' deg a diffyg llwybrau teithio eraill. Mae tagfeydd yn gyffredin wrth gyffyrdd prysur a thrwy brif drefi'r rhanbarth. Bydd buddsoddi mewn llwybrau teithio allweddol fel Ffordd Osgoi A483/A489 y Drenewydd a'r A487 wrth Bont ar Ddyfi i'r gogledd o Fachynlleth yn helpu i wneud rhwydwaith ffyrdd y Canolbarth yn fwy gwydn.

Nodweddir cysylltiadau rheilffyrdd y Canolbarth gan wasanaethau anaml, cyflymderau ara' deg a diffyg gwasanaethau uniongyrchol i brif ddinasoedd y DU, a'r unig brif wasanaeth rheolaidd yw'r un bob dwy awr rhwng Aberystwyth a Birmingham International.

**Cysylltedd digidol**

Mae cysylltedd digidol yn rhan hanfodol o fywyd modern gan ddylanwadu ar sut y mae pobl yn gweithio, cyfathrebu a defnyddio gwasanaethau. Mae lefelau cysylltedd digidol yn y Canolbarth ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Mae band-eang cyflym drwy wifren ffôn ar gael i 79.3% o eiddo ym Mhowys a 78.1% yng Ngheredigion gan roi safle o 405 i'r naill ardal a 408 i'r llall allan o 418 Awdurdod Lleol drwy'r wlad o ran darparu band-eang cyflym drwy wifren ffôn. Yn gynyddol, bydd cysylltedd digidol yn rhwystr i dwf yr economi a pherfformiad busnesau heb barhau i fuddsoddi.

Mae dosbarthiad y rhwydwaith ffonau symudol hefyd yn dal twf economi'r Canolbarth yn ôl. Nid yw tua 1.3% o'r DU yn derbyn unrhyw signal 3G o gwbl, o'i gymharu â 8.4% o adeiladau ym Mhowys a 7.8% yng Ngheredigion. Mae'r darlun yn debyg o ran signal 4G gyda dros hanner holl adeiladau Ceredigion a chwarter holl adeiladau Powys heb signal.

Bydd mynediad at gyfathrebu drwy ffonau symudol a band-eang, a'r genhedlaeth nesaf o dechnoleg, yn dod yn fwyfwy pwysig dros y pymtheg mlynedd nesaf wrth i'r galw am gael mynediad llawn i'r we a mwy o led band gynyddu ar gyfer adeiladau ac wrth symud o gwmpas.

**Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth**

Mae sicrhau'r cyflenwad iawn o dir ac adeiladau cyflogaeth, yn y lle iawn, i ateb anghenion busnesau'n rhan hanfodol o helpu'r economi i fod yn fwy cystadleuol. Mae'n helpu i greu'r amodau sy'n helpu busnesau i sefydlu a chwmnïau cynhenid i dyfu, ac yn denu mewnfuddsoddiad.

Mae'r farchnad o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru'n wahanol i'r hyn sydd ar gael mewn rhanbarthau cyfagos. Daw'r rhan fwyaf o'r galw gan fusnesau sydd eisoes wedi sefydlu yn y rhanbarth. Mae yma amrywiadau daearyddol sylweddol wrth i ardaloedd is-farchnad fel Aberystwyth a Dyffryn Hafren weld mwy o alw a bwlch o ran safleoedd wedi eu cysylltu i wasanaethau. Mae hyn yn cymharu ag ardaloedd mwy anghysbell, gyda rhai heb weld dim neu fawr ddim datblygu'n digwydd yn y blynyddoedd diwethaf. Hefyd mae diffyg argaeledd a buddsoddi mewn adeiladau cyflogaeth modern ar draws y rhanbarth, gyda lefelau isel o hap-ddatblygu.

Mae angen rhaglen hirdymor o fuddsoddi targed mewn safleoedd ac adeiladau cyflogaeth i hybu twf economi'r rhanbarth yn y dyfodol, i helpu i ateb problemau'n ymwneud â methiant y farchnad a hwyluso buddsoddi gan y sector preifat.

**Ynni**

Mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa dda i gyflawni uchelgais Cymru o achub ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r economi carbon isel a thwf glân. Yn 2016[6] cynhyrchwyd 653.2 GWh o drydan adnewyddadwy yng Nghanolbarth Cymru, yn bennaf drwy gynlluniau gwynt ar y lan a thrydan dŵr. Mae gan Ganolbarth Cymru nifer fawr o safleoedd cynhyrchu trydan adnewyddadwy (6,010 i gyd), cynlluniau solar ffotofoltäig yn bennaf. Fodd bynnag, mae capasiti'r grid yn y Canolbarth yn rhwystr sylweddol i dwf yn y dyfodol. Mae mynediad cyfyngedig i'r rhwydwaith ynni ar gyfer cwsmeriaid domestig ac mae'r gost sylweddol o atgyfnerthu'r grid wedi dal buddsoddiad pellach yn ôl.

[6] Ffynhonnell: Yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy (MWh) ar Lefel Awdurdod Lleol 2016

Mae Canolbarth Cymru hefyd yn wynebu heriau tlodi tanwydd. Mae 17% o aelwydydd yng Ngheredigion a 14% ym Mhowys yn byw mewn tlodi tanwydd gyda lefelau tlodi eithafol i'w cael mewn ardaloedd fel Llangeitho, Aberystwyth ac Aberteifi. Mae lefelau uchel o dlodi tanwydd hefyd i'w cael yng ngogledd Powys.

## Crynodeb

Mae'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a'r bygythiadau canlynol wedi'u hadnabod drwy sefydlu'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru:

# Cryfderau a Chyfleoedd




Mae gan Ganolbarth Cymru boblogaeth o 206,000, tua 6.6% o holl boblogaeth Cymru



Mae gan Ganolbarth Cymru gryfderau sector sylweddol mewn amaethyddiaeth, bwyd, twristiaeth, gweithgynhyr-



Cafodd 7.25m o ymwelwyr eu denu yma yn 2016 i fwynhau natur anghysbell, arfordir




Mae Canolbarth Cymru'n gartref i ddwy brifysgol

## £3.5bn

Mae economi Canolbarth Cymru'n cynhyrchu £3.5 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros

## 95%

Mae gan Brifysgol Aberystwyth 95% o ymchwil sy'n cael ei chydnabod i fod o safon ryngwladol neu'n uwch



Dim ond 0.6% o'r boblogaeth sydd mewn oed i weithio sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith, sy'n is na'r cyfartalog drwy'r DU (1.1%)



Yn 2017 roedd gan Ganolbarth Cymru'r lefel isaf o bobl NEET o holl awdurdodau lleol Cymru

Mae cyrhaeddiad addysgol ar Lefel 2, gan gynnwys mewn Cymraeg / Saesneg a Mathemateg, 7.5% yn uwch na'r cyfartalog drwy Gymru

# Heriau a Gwendidau

Gyflymder ara' deg ar hyd y ffyrdd, gwasanaethau anaml a phellteroedd hir oddi wrth y prif ganolfannau trefol

**£16,910**

Mae GVA y pen yn y rhanbarth yn £16,910, sy'n £9,268 yn is na'r ffigwr ar draws y DU. Mae GVA am bob awr a weithir ym Mhowys a Cheredigion yn is na mewn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru

**1,260**

Yn y flwyddyn hyd at Fehefin 2016 symudodd fwy yn y grŵp 20-24 oed (1,260) allan o'r rhanbarth na'r un grŵp oed arall, sy'n dangos colli talent graddedigion ar ôl graddio

**20.3%**

Yn 2017 roedd gan 20.3% o'r rhanbarth signal 4G. Y cyfartalog ar draws y DU oedd 85.1%

Aeth cyfran y boblogaeth sydd mewn oed i weithio yng Nghanolbarth Cymru i lawr o 3% rhwng 2011 a 2017, sy'n golygu bod y gweithlu'n dirywio

> Mae gofynion datblygu economaidd Canolbarth Cymru'n wahanol i'r gofynion mewn rhanbarthau eraill. Yn benodol, mae angen lleoliadau B1 o safon uchel yn y rhanbarth
>
> JLL, 2015

Mae gan 79.3% o adeiladau ym Mhowys a 78.1% yng Ngheredigion Fand-Eang Cyflym drwy wifren ffôn. Y cyfartalog drwy'r DU yw 95%

# 2. Gweledigaeth ar gyfer y Canolbarth

Mae Blaenoriaethau Economaidd Strategol Canolbarth Cymru wedi eu datblygu gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Crëwyd y weledigaeth ar ôl ymgynghori'n helaeth a bydd ond yn cael ei chyflawni drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth a thrwy roi rôl flaenllaw i'r sector preifat.

Bydd y blaenoriaethau yn y ddogfen hon yn helpu i wireddu dyheadau Llywodraethau Cymru a'r DU am dwf yr economi, fel y disgrifiwyd hwynt yn Strategaeth Ddiwydiannol y DU a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb'. Bydd hefyd yn cynorthwyo uchelgais Canolbarth Cymru i sicrhau Bargen Dwf i yrru twf economaidd y rhanbarth a chyfrannu at gyflawni'r amcanion allweddol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd ymdrechion i sicrhau gwahanol ffrydiau cyllido, gan gynnwys cyfraniadau gan y sector preifat, i gyflawni'r dyheadau a'r ymyriadau blaenoriaeth sydd mewn golwg.

## Y Weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru

Erbyn 2033 bydd Canolbarth Cymru:

*"Yn rhanbarth unigryw a llawn menter sy'n darparu twf economaidd wedi'i yrru gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol yn cynnal cymunedau ffyniannus a dwyieithog"*

Drwy weithio'n gydweithredol ac integredig, byddwn yn adeiladu ar ein hasedau unigryw i sicrhau bod economi'r rhanbarth yn cael ei chydnabod gan y nodweddion canlynol:

- **Llawn menter** – bydd Canolbarth Cymru'n rhanbarth sy'n adeiladu ar fod yn entrepreneuraidd i osod y sylfeini ar gyfer twf mewn cynhyrchedd. Bydd yn datblygu mentrau newydd, yn cefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli ac sydd eisiau tyfu, ac yn denu busnesau a buddsoddiad newydd i Ganolbarth Cymru.
- **Unigryw** – bydd y rhanbarth yn cael ei ystyried i fod yn unigryw yng Nghymru. Ardal wledig ydyw'n bennaf, gyda'i hamgylchedd naturiol a'i threftadaeth ddiwylliannol neilltuol yn cynnig bywyd o ansawdd uchel a gyda chryfderau economaidd mewn meysydd fel amaeth-dechnoleg ac amddiffyn sy'n bur unigryw yng Nghymru. Mae potensial hefyd iddi fod yn ardal enghreifftiol ar gyfer datgarboneiddio a thwf glân yn y DU.
- **Sgiliau** – bydd Canolbarth Cymru'n adeiladu ar ei chryfderau academaidd i ddatblygu gweithlu medrus sy'n cwrdd â galw'r economi leol gan sicrhau bod preswylwyr lleol yn aros yn y rhanbarth ac ecsbloetio'r cyfleoedd sydd ar gael.
- **Arloesi** – bydd Canolbarth Cymru'n ardal brawf ar gyfer arloesi, cynhyrchion a phrosesau newydd a fydd yn seiliedig i ddechrau ar yr arbenigedd presennol yn y diwydiant tir a'r sectorau bwyd-amaeth, ynni carbon isel, gweithgynhyrchu ac amddiffyn.
- **Cysylltedd** – bydd gan Ganolbarth Cymru seilwaith trafnidiaeth, ynni a digidol gwell fydd yn sicrhau mynediad at farchnadoedd i nwyddau a gwasanaethau. Bydd buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth yn ateb y broblem o fannau cyfyng ac yn darparu siwrneiau cynt ac amlach. Bydd cysylltedd digidol ac ynni gwell yn helpu busnesau newydd i sefydlu, yn gwneud busnesau presennol y rhanbarth yn fwy effeithlon ac yn gwella mynediad at wasanaethau.
- **Swyddi mwy cynhyrchiol** – bydd Canolbarth Cymru'n creu'r amodau i helpu busnesau i greu mwy o swyddi a chyfleoedd gwaith mwy cynhyrchiol. Rhoddir blaenoriaeth i swyddi gwell sy'n talu'n well. Bydd cynhyrchedd yn gwella ar draws y bwrdd fel bod gan breswylwyr y rhanbarth fwy o incwm gwario gan hefyd helpu i ddarparu twf economaidd cynhwysol.
- **Cymunedau ffyniannus –** lle bynnag y bo'n bosib, bydd manteision y twf economaidd yn cael eu cadw yn y rhanbarth. Bydd cyfle i gynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth ar gael i breswylwyr Canolbarth Cymru ac yn cael eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y rhanbarth.

Bydd y weledigaeth yn cael ei darparu drwy'r amcanion a'r rhaglenni cysylltiedig canlynol:

<table>
<tr><td>AMAETHYDDIAETH A'R ECONOMI WLEDIG</td><td colspan="8">Y WELEDIGAETH<br>Rhanbarth unigryw a llawn menter sy'n darparu twf economaidd wedi'i yrru gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol ac yn cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog</td></tr>
<tr><td>AMDDIFFYN A DIOGELWCH</td><td colspan="2">AMCAN<br>Canolbarth Cymru arloesol a medrus</td><td colspan="3">AMCAN<br>Canolbarth Cymru cystadleuol a chynaliadwy</td><td colspan="3">AMCAN<br>Canolbarth Cymru cysylltiedig ac unigryw</td></tr>
<tr><td>TWRISTIAETH<br>GWEITHGYNHYRCHU<br>YR ECONOMI SYLFAEN</td><td>RHAGLEN<br>Sgiliau</td><td>RHAGLEN<br>Arloesi</td><td>RHAGLEN<br>Eiddo</td><td>RHAGLEN<br>Busnes</td><td>RHAGLEN<br>Ynni</td><td>RHAGLEN<br>Trafnidiaeth</td><td>RHAGLEN<br>Digidol</td><td>RHAGLEN<br>Lle</td></tr>
</table>

# Amcan 1: Canolbarth Cymru Arloesol a Medrus

Mae'r amcan hwn yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu ar asedau arloesi a sgiliau allweddol y Canolbarth. Bydd yn cynhyrchu twf economaidd, yn sicrhau bod cymunedau'r rhanbarth yn dod yn fwy ffyniannus a bod gan breswylwyr y sgiliau ar gyfer swyddi yn y dyfodol. Mae sicrhau bod y llafurlu a'r cyflenwad sgiliau'n cydfynd â'r rhai y mae busnesau'n galw amdanynt, yn awr ac yn y dyfodol, yn eithriadol bwysig i ddatblygu cymunedau cynaliadwy a sicrhau twf economaidd cynhwysol.

Mae pwysigrwydd arloesi a sgiliau'n cael ei bwysleisio yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn adnabod mai 'injan' twf economaidd a chynnydd cymdeithasol yw ymchwil, arloesi a datblygu'r sgiliau iawn ar gyfer byd sy'n newid. Mae'r amcan hwn yn cynnwys rhaglenni buddsoddi sy'n adeiladu ar gryfderau ymchwil a datblygu prif gyflogwyr, sectorau twf a sefydliadau academaidd y rhanbarth. Mae'n hollbwysig sicrhau bod yr arloesi hwn yn creu cyfleoedd busnes, cynhyrchion, gwasanaethau a sgiliau newydd ac yn cynhyrchu swyddi gwerth uwch. Mae'r amcan hefyd yn cynnwys sefydlu system sgiliau benodol a seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y Canolbarth sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr y rhanbarth.

## Rhaglenni

### 1.1 Sgiliau a'r Gweithlu

Mae cynyddu lefelau sgiliau'n ffocws allweddol gan Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Rhaid cael gweithlu medrus os yw cwmnïau i lwyddo i roi syniadau arloesol ar waith a chynyddu eu cynhyrchedd. Yn draddodiadol mae'r ffocws wedi bod ar sgiliau lefel uwch, ond mae technegwyr gyda sgiliau canolraddol, a sgiliau gweithlu ehangach, hefyd yn hanfodol[7]. Mae'r problemau sgiliau sy'n wynebu'r Canolbarth yn gymhleth. Dengys ymchwil gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol fod busnesau yn sectorau blaenoriaeth y rhanbarth yn adrodd trafferthion recriwtio a bwlch sgiliau.

Mae llafurlu'r rhanbarth ar drai. Gallai hyn arwain at heriau pellach o ran faint o sgiliau sydd ar gael i ateb gofynion busnesau, a hefyd efallai at gamgymharu posib rhwng y cyflenwad a'r galw. Bydd ymyriadau i greu Canolbarth Cymru medrus yn helpu i sicrhau bod gan y rhanbarth system sgiliau seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr. Bydd yn goleuo'r ddarpariaeth o Gyfnod Allweddol 4 trwodd at Addysg Uwch, gan gynnig llwybrau gyrfaol clir i bobl ifanc. Bydd y Rhaglen Sgiliau'n adeiladu ar berfformiad academaidd cryf y rhanbarth yn yr ysgol, yn ceisio gwrthdroi sefyllfa lle mae ein preswylwyr ifanc a medrus yn allfudo, ac yn cydnabod yr her unigryw o ddarparu ar draws rhanbarth gwledig yn bennaf. Bydd hefyd yn cydnabod bod angen i ymyriadau gyd-fynd â, nid dyblygu, newidiadau ar ddod i gymorth sgiliau a chyflogaeth.

[7] Ffynhonnell: Mae sgiliau gweithlu ar bob lefel yn hybu arloesi a chynhyrchedd. Sesiwn briffio tystiolaeth ESRC. Ionawr 2018.

### 1.2 Arloesi

Mae arloesi'n ganolog i uchelgais Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i ddarparu twf economaidd, swyddi mwy cynhyrchiol a chymunedau ffyniannus. Mae arloesi'n offeryn ar gyfer adeiladu ar asedau allweddol y rhanbarth i ddatblygu nwyddau a gwasanaethau newydd, hyrwyddo menter, rhyngwladoli economi'r rhanbarth a gwella ei rhagolygon economaidd hirdymor. Mae gan arloesi'r potensial i wella perfformiad cynhyrchedd y Canolbarth, bod yn gatalydd i greu swyddi 'gwell', helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio a hybu twf economaidd mewn rhanbarth gwledig.

Mae arloesi wrth galon y dasg o fynd i'r afael â'r Heriau Mawr a ddisgrifir yn Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth y DU[8] ac yn thema allweddol yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru. Mae cyfle yn y Canolbarth i hyrwyddo mwy fyth o arloesi mewn sectorau allweddol fel amaethyddiaeth a bwyd, amddiffyn, y gwyddorau milfeddygaeth, technoleg carbon isel a gweithgynhyrchu.  Mae angen buddsoddi i gefnogi mwy o gydweithrediad rhwng prifysgolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill er mwyn hyrwyddo masnacheiddio ymchwil i sectorau allweddol y Canolbarth.

# Amcan 2: Canolbarth Cymru Cystadleuol a Chynaliadwy

Mae asedau ffisegol, busnes a naturiol Canolbarth Cymru'n cynnig amgylchedd cystadleuol a chynaliadwy i dyfu busnesau. Nod y Blaenoriaethau Economaidd Strategol yw achub ar bob cyfle allweddol sy'n codi yn y rhanbarth, ac ar yr arloesi a ddarperir gan fusnesau a sefydliadau academaidd mewn rhannau o'r economi lle mae gan Ganolbarth Cymru gryfderau amlwg. Mae hyn yn cynnwys sectorau sylfaen, gweithgynhyrchu, amaeth, amddiffyn a thwristiaeth yr economi.

Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd yn agos â Strategaeth Ddiwylliannol y DU drwy ganolbwyntio ar greu'r amodau iawn i gychwyn a thyfu busnes, ymateb i'r Heriau Mawr fel twf glân a chymdeithas sy'n heneiddio a hefyd efallai'n cyfrannu at fargeinion rhwng y llywodraeth a'r sectorau gwyddorau bywyd a deallusrwydd artiffisial. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad cryf at Gynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, "Ffyniant i Bawb", drwy ei ffocws ar yr economi sylfaen yn cynnwys y sectorau twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal.

## Rhaglenni

### 2.1 Eiddo

Mae sicrhau'r cyflenwad iawn o dir ac adeiladau cyflogaeth, ac yn y lle iawn, i ateb anghenion busnesau'n rhan hanfodol o helpu'r economi ranbarthol i dyfu a bod yn gynaliadwy. Rhaid dadansoddi a deall y farchnad eiddo tir ac adeiladau ar gyfer cyflogaeth i sicrhau dull strategol a chynlluniedig o helpu i'w darparu yn y dyfodol. Mae prinder cyflenwad tir ac adeiladau ar gyfer cyflogaeth mewn mannau allweddol, ac ychydig iawn o ddatblygu gan y sector preifat oherwydd problemau hyfywedd a methiant y farchnad. Mae stoc fasnachol sy'n heneiddio hefyd yn broblem ynghyd â diffyg eiddo o safon ar gyfer busnesau llai. Bydd y Rhaglen Eiddo'n canolbwyntio ar gyflwyno rhaglen fuddsoddi flaenoriaeth mewn cyfnodau i ddarparu safleoedd ac eiddo cyflogaeth ar draws y rhanbarth i gefnogi twf economaidd. Dylai hyn gynnwys trefniadau i roi sylw i gyfyngiadau safle a phroblemau methiant y farchnad, ynghyd â mesurau ariannol i sicrhau buddsoddi o'r newydd mewn eiddo a safleoedd cyflogaeth.

Bydd y rhain yn cael eu hadnabod drwy gasglu gwybodaeth traws-rhanbarth am y cyflenwad a'r galw am eiddo a safleoedd, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i ddadansoddi'r sefyllfa gychwynnol ar gyfer cefnogi Blaenoriaethau Economaidd Strategol y Canolbarth.

Mae'r Rhaglen Eiddo hefyd yn cynnwys buddsoddiad i helpu i ddarparu tai drwy gyflymu cwblhau tai a chyfrannu hefyd at gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.  Bydd cymorth ariannol yn bwysig i oresgyn problemau hyfywedd mewn llawer o ardaloedd, er enghraifft drwy helpu i ateb cyfyngiadau ar ddatblygu a darparu seilwaith safle.

[8] Ffynhonnell: Y Strategaeth Ddiwydiannol. Creu dyfodol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Llywodraeth EM. Y pedair Her Fawr yw 1. Rhoi'r Deyrnas Unedig ar flaen y chwyldro mewn data a deallusrwydd artiffisial. 2. Achub ar bob mantais a ddaw o symud at dwf glân ar gyfer diwydiant y DU. 3. Arwain y byd mewn dylanwadu ar ddyfodol symudedd. 4. Harneisio pŵer arloesi i harneisio anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

## 2.2 Busnes

Mae busnesau wrth galon Blaenoriaethau Economaidd Strategol y Canolbarth ac wedi dylanwadu'n allweddol ar ei raglenni blaenoriaeth. Mae'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn darparu'r seilwaith a'r rhaglenni y bydd busnesau'n gallu tyfu drwyddynt. Mae'r sector preifat wedi bod yn ganolog i'r blaenoriaethau yn y ddogfen hon oherwydd nhw fydd yn darparu'r gyflogaeth a'r cynhyrchedd fydd yn gyrru cyfraniad y Canolbarth at dwf economaidd Cymru a'r DU.

Mae Canolbarth Cymru'n wynebu cryn her o ran cynhyrchedd. Mewn cymhariaeth ag economïau rhanbarthol eraill, mae gan Ganolbarth Cymru gyfran lawer uwch o fusnesau bach a meicro. Mae lefelau cynhyrchedd cymharol isel y rhanbarth yn awgrymu bod angen gwella perfformiad y busnesau sydd eisoes yma ond hefyd ceisio denu busnesau mwy cynhyrchiol i'r rhanbarth.

Rhaid cael dull tyfu busnes pwrpasol ar gyfer y rhanbarth dros y pymtheg mlynedd nesaf. Bydd y dull hwn yn targedu cymorth ariannol ac ehangach at fusnesau gyda golwg ar ecsbloetio cryfderau sector y rhanbarth. Mae'r ymyriadau sydd mewn golwg yn cynnwys pecyn cymorth busnes gwell, ac efallai parth menter aml-safle ar gyfer y rhanbarth. Bydd seilwaith digidol gwell yn gyfle sylweddol i dyfu a denu busnesau newydd a bydd opsiynau arallgyfeirio amaethyddol, ynghyd â datblygu cadwyni cyflenwi, yn greiddiol bwysig i economi'r rhanbarth.

## 2.3 Ynni

Mae buddsoddi mewn cynhyrchu a dosbarthu ynni carbon isel yn gyfle pwysig i gefnogi twf economaidd ac arallgyfeirio yng Nghanolbarth Cymru. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i rwystro gan rwydwaith trawsyrru a dosbarthu trydan annigonol. Rhaid buddsoddi mwy mewn seilwaith grid i wella capasiti er mwyn cefnogi twf hirdymor.

Mae'r rhanbarth mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd carbon isel a rheoli'r broses o bontio tuag at ddyfodol carbon isel a thwf glân. Mae cryn arbenigedd yn y maes hwn ar draws y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus, yn enwedig gan y Ganolfan Technoleg Amgen a Phrifysgol Aberystwyth. Drwy fuddsoddi mewn rhaglen o gynhyrchu ynni trydan a gwres carbon isel o wahanol ffynonellau, a'i hintegreiddio mewn cynlluniau twf ar gyfer y dyfodol, bydd potensial i ddod â manteision economaidd a chymunedol helaeth i'r rhanbarth.

Mae'r Rhaglen Ynni'n cyd-fynd yn gryf iawn â'r Rhaglenni Busnes a Sgiliau gan roi cyfle i wneud y mwyaf o botensial troi gwastraff amaethyddol yn ynni, ynghyd â buddsoddi i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy bach, arallgyfeirio'r diwydiannau tir, ymchwil a datblygu, hyfforddiant a chreu mentrau busnes newydd.

# Amcan 3: Canolbarth Cymru Cysylltiedig ac Unigryw

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau buddsoddi i sicrhau bod Canolbarth Cymru wedi'i gysylltu, yn fewnol ac allanol, gan seilwaith modern ac addas i'r pwrpas. Rhaid cael seilwaith modern a gwydn i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Canolbarth a blaenoriaethau economaidd y rhanbarth. Mae'n hwyluso symud nwyddau o gwmpas; yn cysylltu cymunedau i gyfleoedd addysgol a chyflogaeth; yn cysylltu cymunedau gwledig; ac yn hwyluso mynediad at wasanaethau. Felly bydd sicrhau bod y Canolbarth wedi'i gysylltu'n ddigonol yn cyfrannu at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb.

## Rhaglenni

### 3.1 Digidol

Mae Strategaeth Ddigidol Llywodraeth y DU[9] yn disgrifio pa mor bwysig yw cysylltedd digidol i economi'r DU ac i fod yn gystadleuol drwy'r byd. Gall sectorau mor amrywiol â manwerthu, twristiaeth, amaeth ac amddiffyn i gyd elwa o gysylltedd digidol cyflym gan arwain at enillion mewn cynhyrchedd ac arloesi a mynediad gwell at wasanaethau a marchnadoedd. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi nodi bod angen blaenoriaethu'r buddsoddiad yn seilwaith digidol y rhanbarth os yw'r Canolbarth i gystadlu'n wirioneddol â rhanbarthau eraill a manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd. Bydd pwysigrwydd cyfathrebu digidol cyflym a didrafferth yn sicr o gynyddu hyd at 2033 ac yn hwyluso effeithlonrwydd ym mhob sector.

### 3.2 Lle

Mae maint a natur wledig y Canolbarth eisoes yn golygu ei bod yn ardal unigryw yng Nghymru. Mae Blaenoriaethau Economaidd Strategol y Canolbarth yn cydnabod hyn ac yn canolbwyntio ar greu rhanbarth sy'n gallu sefyll ar ei ben ei hun i ddarparu twf i'w breswylwyr, busnesau a'i gymunedau.


Mae cyfle i hyrwyddo'r Canolbarth y tu allan i'w ffiniau'n well, fel cyrchfan ymwelwyr ac er mwyn denu mewnfuddsoddiad. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys marchnata lle sy'n adeiladu ar brosiectau strategol fel Ffordd Cymru; drwy annog buddsoddi mewn cyfleoedd a lleoliadau trawsnewidiol fel arfordir Ceredigion; a thrwy raglen bresennol y rhanbarth o gyfleoedd a digwyddiadau i ysgogi buddsoddi yn nhrefi marchnad a chyrchfannau ymwelwyr y Canolbarth.

### 3.3 Trafnidiaeth

Mae maint, natur bellennig a phatrwm gwasgarog trefi a phentrefi'r Canolbarth yn her o ran cludo nwyddau a phobl. Bydd buddsoddi mewn cynlluniau mawr fel Ffordd Osgoi'r Drenewydd yn gwella gwydnwch rhwydwaith ffyrdd y rhanbarth a bydd y fasnachfraint rheilffordd newydd yn dod â gwelliannau gwasanaeth a seilwaith. Fodd bynnag, mae angen mwy o fuddsoddiad i ateb rhai o'r problemau trafnidiaeth sylfaenol sy'n llestair i symud o gwmpas y rhanbarth.

[9] Ffynhonnell: Adran y Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon, 2017

# 3. Rhaglenni Blaenoriaeth




## Amcan 1: Canolbarth Cymru Arloesol a Medrus

## Rhaglen 1.1: Sgiliau a'r Gweithlu

Mae gan Ganolbarth Cymru weithlu cymwysedig a medrus iawn.  Mae cyflawniad plant y rhanbarth yn yr ysgol yn rhagori ar y cyflawniad cyfartalog drwy Gymru. Mae cyfran uwch o bobl sydd mewn oed i weithio wedi cymhwyso i lefel gradd, mewn cymhariaeth â'r cyfartalog cenedlaethol, ac mae diweithdra ar ei lefel isaf erioed yn hanesyddol. Mae'r cryfderau hyn yn gosod sylfeini twf cadarn i'r rhanbarth.

Mae'r Canolbarth hefyd yn wynebu heriau'n ymwneud â'i natur unigryw. Mae gan y rhanbarth weithlu isel sy'n mynd yn llai felly mae'n bwysig cadw a denu pobl sy'n economaidd weithgar i'r Canolbarth. Mae prifysgolion y rhanbarth yn darparu gwythien o bobl ifanc dalentog a medrus ond mae cyfle i gynyddu nifer y graddedigion sy'n dod o hyd i waith yn y Canolbarth. Mae maint y Canolbarth a'i boblogaeth wasgaredig yn creu her o ran darparu addysg ac mae trafferthion recriwtio a phrinder sgiliau yn y meysydd canlynol ar hyn o bryd[10]:

- Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch ac ynni – mae'r trafferthion recriwtio'n ymwneud â galwedigaethau allweddol fel peirianwyr, weldwyr, swyddi CAD / darlunio yn y swyddfa, a swyddi electro-dechnegol.
- Amaeth, bwyd a ffermio – gallai effaith bosib Brexit ynghyd â natur dymhorol cyflogaeth amaethyddol, arwain at brinder sgiliau. Mae prinder milfeddygon, gwyddonwyr, meicro-fiolegwyr a thechnegwyr cynnyrch llaeth hefyd wedi'i adnabod wrth baratoi'r ddogfen hon.
- Twristiaeth a hamdden – profir trafferthion gyda recriwtio cogyddion, swyddi arlwyo, glanhau, cadw tŷ a chynnal a chadw.

[10] Ffynhonnell: Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru

- Iechyd a gofal cymdeithasol – mae cadw staff yn broblem arbennig i gyflogwyr yn y sector a phrofir trafferthion gyda recriwtio gweithwyr cymorth gofal, nyrsys, staff gofal cartref a staff cegin / glanhau.

Mae busnesau yn y Canolbarth yn llai tebygol o drefnu hyfforddiant i'w gweithlu ac yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cael trafferth llenwi swyddi o'i gymharu â chyflogwyr mewn rhannau eraill o Gymru[11]. Mae dros hanner y cyflogwyr lleol hefyd yn adrodd nad yw pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn cael eu hystyried i fod yn barod am waith[12]. Mae natur y gwaith a'r galw am sgiliau'n newid a bydd yn parhau i newid dros 15 mlynedd oes y blaenoriaethau yn y ddogfen hon. Erbyn 2030, bydd awtomatiaeth yn bygwth un o bob tair swydd yng Nghymru[13], a'r sgiliau lleiaf medrus fydd fwyaf yn y fantol. Ar yr un pryd mae awtomatiaeth, technoleg ddigidol a ffyrdd mwy hyblyg o weithio'n rhoi cyfle i ardaloedd sy'n cynnig bywyd o ansawdd uchel, fel Canolbarth Cymru, dyfu ymhellach.

Mae angen system sgiliau bwrpasol a seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae angen system sy'n ymateb i anghenion sgiliau'r cyflogwyr presennol a chyflogwyr y dyfodol i gynnal twf yr economi. Byddai'n goleuo'r ddarpariaeth addysg a sgiliau o Gyfnod Allweddol 4 ymlaen at Addysg Uwch drwy adnabod a cheisio llenwi'r bylchau mewn sgiliau a chymorth cyflogaeth er mwyn ateb anghenion cyflogwyr.

Rhaid gwneud mwy i ateb yr heriau gweithlu y mae economi'r Canolbarth yn eu hwynebu heddiw. Mae'r rhanbarth yn gweld colli mil o breswylwyr sydd mewn oed i weithio bob blwyddyn[14], yn bennaf i fanteisio ar gyfleoedd addysg a gwaith nad ydynt ar gael yn y rhanbarth hwn. Byddai 'Canolfannau Rhagoriaeth' ar gyfer sectorau, mewn partneriaeth â diwydiant, i geisio cwrdd ag anghenion sgiliau'r sectorau blaenoriaeth (gweithgynhyrchu; amaeth a bwyd; a'r sector sylfaen) a meysydd twf y dyfodol, fel pontio i economi carbon isel, yn helpu i ateb y broblem hon. Dylid hefyd cryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr drwy addewid gan gyflogwyr y rhanbarth. Byddai addewid cyflogwyr yn annog busnesau yn y Canolbarth i gefnogi pobl ifanc drwy fynychu ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau ymgysylltu ag ysgolion a thrwy gynnig profiad gwaith. Dylid hefyd rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr Addysg Bellach ac Uwch i annog pobl ifanc i ddewis prentisiaethau a lleoliadau gwaith ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth ar ôl iddynt adael addysg.

Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| **Blaenoriaeth** | **Ymyriad** |
|---|---|
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • System sgiliau seiliedig ar dystiolaeth i'r Canolbarth |
| Blaenoriaethau Uchel | • Canolfannau prifysgol yn y Canolbarth |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Addewid gan gyflogwyr y Canolbarth<br>• Dulliau newydd ac amgen o ddarparu sgiliau |

[11] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU (UKCESS) 2015
[12] Ffynhonnell: Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, Adroddiad Blynyddol Canolbarth Cymru, 2018.
[13] *The Impact of AI in UK Constituencies: Where will automation hit hardest?* Future Advocacy, 2017
[14] Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, ONS

# Rhaglen 1.2: Arloesi

Mae Canolbarth Cymru'n cyfrannu tua 6% o'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) a gynhyrchir gan economi Cymru, canran sydd wedi aros yn gyson ers bron i ugain mlynedd ond a welodd ostyngiad o 1.5% rhwng 2016 a 2017[15]. Mae'r GVA am bob awr a weithir ymhlith yr isaf yn y DU. Mae'r GVA y pen yn y Canolbarth yn codi, er dim ond yn fwy unol â'r cyfartalog drwy Gymru, sy'n llusgo ar ôl GVA y pen y Deyrnas Unedig. Mae'r ffactorau sy'n gysylltiedig â GVA isel yn gymhleth ac amrywiol. Fodd bynnag mae dibynnu ar sectorau fel twristiaeth ac amaeth, sydd fel arfer yn dymhorol ac ar hyn o bryd yn sectorau gwerth ychwanegol isel, yn ffactorau allweddol.

Mae gan economi gwerth ychwanegol isel amryw o oblygiadau. Mae'r rhain yn effeithio ar ffyniant a chyflogau'r rhanbarth o gofio bod yr enillion cyfartalog yn is na'r cyfartalog drwy Gymru a'r DU. Yn ei dro mae hyn yn creu problemau gyda fforddiadwyedd tai; bod mwy o bobl ifanc fedrus yn allfudo i chwilio am swyddi sy'n talu'n dda, a phocedi o amddifadedd gwledig. I gynyddu cynhyrchedd economi'r Canolbarth, bydd angen gweld cryn newid mewn perfformiad drwy adeiladu ar asedau economaidd a chryfderau academaidd y rhanbarth er mwyn dod yn ardal fwy cynhyrchiol ac arloesol. Mae Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn pwysleisio rôl arloesi ar gyfer economi fodern a hyn i'w gyflawni drwy fanteisio ar alluoedd ymchwil a datblygu'r DU i wella cynhyrchedd a dod yn fwy cystadleuol. Mae gan y Canolbarth nifer o gryfderau sector ac ymchwil a datblygu a allai helpu i yrru arloesi a chynhyrchedd y rhanbarth. Er enghraifft:

**Amaeth-dechnoleg a biowyddoniaeth** – mae gan y Canolbarth arbenigedd blaenllaw mewn ymchwil a datblygu yn y sectorau amaeth-dechnoleg a biowyddoniaeth drwy ganolfannau ymchwil nodedig fel Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Mae cyfle i fanteisio ymhellach ar gryfderau ymchwil sectorau amaeth-dechnoleg a biowyddoniaeth y rhanbarth. Byddai **Canolfan Arloesi Amaethyddol** yn helpu i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd er mwyn hwyluso arallgyfeirio gan ffermydd; ecsbloetio technolegau digidol a phrosesau dadansoddi data, ac ateb anghenion sgiliau'r busnesau presennol a busnesau newydd yn sectorau amaeth-dechnoleg a bwyd y rhanbarth.

**Y gwyddorau milfeddygaeth** – mae gan Ganolbarth Cymru eisoes gryfder yn y gwyddorau milfeddygaeth drwy Ganolfan Gwyddorau Milfeddygaeth Cymru a'r Hyb Milfeddygol gwerth £4.2m. Mae angen buddsoddi mwy yn y gwyddorau milfeddygol ac mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain ar ddarparu gwasanaethau i'r sector amaeth a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o filfeddygon, gan felly ateb yr her traws-DU o recriwtio a chadw milfeddygon. Byddai **Campws Iechyd Anifeiliaid** felly'n hyrwyddo arloesi ac ateb y prinder sgiliau hollbwysig yn y sector amaethyddol eithriadol bwysig hwn.

**Sbectrwm Radio** – mae Canolbarth Cymru'n lleoliad pwysig ar gyfer gweithgareddau amddiffyn y DU gan gynnig awyrofod neilltuol ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS) oddi ar arfordir Gorllewin Cymru. Mae **Canolfan Sbectrwm Genedlaethol ar gyfer Arloesi, Peirianneg ac Arbrofi (N-SIEEC)** yn cynnig potensial i hyrwyddo arloesi, datblygu cynhyrchion a chymwysiadau newydd, cefnogi gwydnwch, diogelwch a chywirdeb i roi Canolbarth Cymru wrth galon Strategaeth Sbectrwm Llywodraeth Y DU. Mae cymwysiadau posib technoleg Sbectrwm i sectorau allweddol Canolbarth Cymru yn eang iawn. Maen nhw'n cynnwys y sector amddiffyn a diogelwch, a defnyddio roboteg, drôns a pheiriannau clyfar mewn amaethyddiaeth. Mae datblygiadau Sbectrwm hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu **Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Drôns a Cherbydau Awyr Di-beilot** gyda rhaglen gysylltiedig o ymchwil a datblygu wedi'i hariannu.

**Gweithgynhyrchu** – mae gan Ganolbarth Cymru bresenoldeb gweithgynhyrchu sylweddol gyda thros 6,600 o bobl wedi eu cyflogi yn y sector. Mae'r rhanbarth yn gartref i fusnesau gweithgynhyrchu allweddol ac arbenigol yn ymwneud â chynhyrchu bwyd, awtomatiaeth a pheirianneg symudiad ynghyd â'r dechnoleg ddiweddaraf fel cerbydau pŵer hydrogen. Mae'r sector yn cael trafferth recriwtio ac mae Diwydiant 4.0 ac awtomatiaeth yn newid anghenion sgiliau'r sector ac yn cynyddu'r gystadleuaeth. Bydd sicrhau bod sector gweithgynhyrchu'r rhanbarth yn parhau i arloesi a chyflenwi sgiliau ar gyfer y dyfodol yn hollbwysig i aros yn gystadleuol.

Mae adeiladu ar gryfderau sector ac academaidd Canolbarth Cymru'n greiddiol bwysig i yrru arloesi a thwf economaidd. Mae Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, er enghraifft, yn rhedeg y rhaglen Gweithgynhyrchu ar gyfer Peirianneg Dylunio Uwch (MADE) ar draws ei gampysau. Mae'r rhaglen, a gyflwynir gan Ganolfan Swp-

[15] Ffynhonnell: ONS Rhagfyr 2018

weithgynhyrchu Uwch y brifysgol, wedi'i theilwrio i helpu cwmnïau gweithgynhyrchu i fanteisio ar bŵer technolegau disodli, er mwyn rhoi hwb i'w cynhyrchedd.

Mae Canolbarth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd annog entrepreneuriaeth ac arloesi ymhlith ei breswylwyr a'i fusnesau. Bydd rhwydwaith o ganolfannau menter ac arloesi'n darparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth i annog sefydlu busnesau newydd, entrepreneuriaeth ac arloesi gan adeiladu ar y model **Hybiau Gigabit** yng nghefn gwlad Iwerddon. Mae'r hybiau'n cynnig cysylltedd digidol cyflym iawn a gweithleoedd cydweithredol. Dangoswyd eu bod yn helpu i ddenu pobl fedrus iawn eu sgiliau, gan annog mewnfuddsoddiad a busnesau newydd. Dangoswyd bod gweithle cydweithio'n meithrin arloesi a chydweithrediad ymhlith cwmnïau client. Bydd arloesi'n cael ei hyrwyddo ymhellach drwy ddatblygu **cronfa arloesi ecwiti a banc syniadau ar gyfer y Canolbarth** i roi buddsoddwyr mewn cysylltiad ag unigolion a busnesau sydd â syniadau a chynhyrchion yn y cam cynnar arloesol a allai greu twf economaidd a swyddi yn y dyfodol.

Bydd blaenoriaethu'r gweithredu ar arloesi'n helpu i wella perfformiad economaidd y Canolbarth, adeiladu ar gryfderau sector ac ymchwil a datblygu'r rhanbarth a chryfhau hunaniaeth Canolbarth Cymru fel economi ranbarthol twf glân a chystadleuol. Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| Blaenoriaeth | Ymyriad |
| --- | --- |
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Pecynnau ar gyfer buddsoddi mewn cyfleoedd strategol i hybu twf sectorau penodol, gan gynnwys:<br>– Sbectrwm radio;<br>– Cerbydau awyr di-beilot;<br>– Gweithgynhyrchu;<br>– Amaeth a'r bio-economi; a<br>– Yr economi hydrogen. |
| Blaenoriaethau Uchel | • Canolfannau menter ac arloesi (Hybiau Gigabit) ym mhrif drefi'r rhanbarth. |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Cronfa arloesi a banc syniadau ar gyfer y rhanbarth. |

# Amcan 2: Canolbarth Cymru Cystadleuol a Chynaliadwy

# Rhaglen 2.1: Eiddo



Mae cael digon o dir ac eiddo fel bod busnesau'n gallu buddsoddi a thyfu wedi bod yn fater canolog drwy gydol y broses o baratoi'r ddogfen hon. Awgryma'r dystiolaeth mai'r rheswm yn rhannol am y prinder adeiladau modern yw methiant sector preifat y farchnad i ddatblygu safleoedd ac eiddo oherwydd bod y gost o adeiladu'n aml yn fwy na gwerth yr adeiladau ar ôl eu cwblhau.

Llywodraeth Cymru yw'r prif ddatblygwr eiddo ar gyfer cyflogaeth yn y rhan fwyaf o'r rhanbarth. Fodd bynnag bu'r ffocws ar ddatblygu adeiladau mwy a phwrpasol ar gyfer defnyddwyr ym mhen ucha'r farchnad. Mae hyn yn gadael bwlch o ran adeiladau newydd ym mhen isaf a chanol y farchnad. Ar ben hyn, mae enghreifftiau penodol wedi bod o gwmnïau'n dewis lleoli yn rhywle arall oherwydd diffyg tir neu adeiladau addas i ehangu eu busnes yng Nghanolbarth Cymru. Yn ôl yr adborth gan fusnesau a rhanddeiliaid, mae adeiladau ar gyfer busnesau llai a newydd sefydlu'n brin, sy'n cyd-fynd â'r dystiolaeth ehangach.

Ar hyn o bryd nid oes llawer o wybodaeth am y cyflenwad a'r galw am dir cyflogaeth sy'n cyfyngu ar ddatblygu dull mwy strategol o dargedu buddsoddiad. Mae angen asesu mwy ar y farchnad i ganfod ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy am argaeledd tir ac adeiladau a sut y bydd modd casglu'r wybodaeth yma ar draws y rhanbarth yn y dyfodol. Mae hefyd angen gwasanaeth canolog i reoli a chydgysylltu ymholiadau'n ymwneud â gofynion y busnesau presennol a buddsoddi o'r newydd.

Mae perfformiad y farchnad eiddo masnachol yn amrywio'n sylweddol o un lle i'r llall yn y rhanbarth. Mae'r tir sydd eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflogaeth wedi'i adeiladu arno i gyd mewn ardaloedd lle mae galw uchel, er enghraifft Dyffryn Hafren, ac o ganlyniad bydd angen ystyried dyrannu tir newydd. Mae angen mwy o hyblygrwydd gyda'r system gynllunio er mwyn ehangu safleoedd lle mae'r galw'n uchel ac annog newid defnydd o safleoedd amaethyddol i fasnachol er mwyn cefnogi arallgyfeirio.

Ar yr ochr gyflenwi, nid oes dim neu fawr ddim buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat yn y Canolbarth. Mae angen canolbwyntio ar gynyddu capasiti, ond heb fusnes preifat i arwain ar hyn, dylai'r sector cyhoeddus gynnig cymhellion i ddatblygu neu ddarparu safleoedd ac eiddo'n uniongyrchol ei hun. I wneud hyn bydd angen newid polisi ar lefel llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru i hwyluso ymyrryd yn y farchnad. Dylai hyn gynnwys defnyddio'r **rhaglenni ariannu newydd, a rhaglenni presennol, i annog mwy o hap-ddatblygu gan gynnwys cyllid ar gyfer seilwaith** i ddarparu mynediad a chyfleustodau ar gyfer safleoedd newydd ynghyd â buddsoddi'n uniongyrchol mewn datblygu opsiynau prydles a rhydd-ddaliad. Dylid targedu'r buddsoddiad at ardaloedd lle mae galw'n hytrach na'i wasgaru ar draws y rhanbarth, fydd yn cysylltu i'r posibilrwydd o ddynodi Parth Menter aml-safle a chymhellion cysylltiedig – a fyddai'n cysylltu i'r pecyn buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo i gynnig ystod fwy cynhwysfawr o fesurau.

Nodweddir y farchnad dai yn y Canolbarth gan broblemau tebyg i'r farchnad eiddo masnachol a diwylliannol ac mae amrywiadau daearyddol eang o ran ei pherfformiad ar draws y rhanbarth. Yn y tymor byr diweddar, mae mwy o dai newydd yn cael eu cwblhau, ond prin yw unrhyw waith newydd yn y rhanbarth. Mae codi tai wedi'i gyfyngu am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys diffyg cyllid ar gyfer datblygu, argaeledd morgeisi, prinder sgiliau yn y diwydiant datblygu lleol a diffyg datblygwyr adeiladu mawr.

Gwelodd Ganolbarth Cymru brisiau tai'n codi yn y tymor byr diweddar – i fyny 4.9% yng Ngheredigion yn y flwyddyn hyd at Ragfyr 2017, a chynnydd o 1.4% ym Mhowys dros yr un cyfnod. Mae prisiau tai'n uwch na phrisiau cyfartalog drwy Gymru ac, mewn cymhariaeth â chyflogau cyfartalog, yn llai fforddiadwy o'i gymharu â Chymru a'r DU yn gyffredinol.

Ar yr un pryd, mae gan y rhanbarth nifer uchel o dai haf, wedi'i yrru gan dai fforddiadwy mewn cymhariaeth â rhanbarthau eraill, ac ansawdd bywyd uchel y Canolbarth. Mae hyn yn fater hynod bwysig sydd angen rhoi sylw iddo os am gadw pobl ifanc yn y rhanbarth. Mae angen gweithredu i gynyddu'r cyflenwad tai'n gyffredinol ac adeiladu mwy o dai fforddiadwy. Mae Cymdeithasau Tai, y sector preifat ac awdurdodau lleol yn parhau i chwarae rôl bwysig ond **mae angen mwy o fuddsoddi a gwaith i gynyddu'r cyflenwad o dai marchnad a thai**

**fforddiadwy** i gwrdd â'r angen a helpu i ddenu preswylwyr a buddsoddiad newydd. Mae gwir gyfle i ddefnyddio modelau newydd o adeiladu a darparu tai mewn ardaloedd gwledig drwy weithio gyda Chymdeithasau Tai a'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gynnig atebion tai modiwlaidd ac arloesol carbon isel.

Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| Blaenoriaeth | Ymyriad |
|---|---|
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Rhaglen o fuddsoddi mewn safleoedd cyflogaeth strategol allweddol |
| Blaenoriaethau Uchel | • Pecyn arloesol i dargedu buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo ar gyfer cyflogaeth<br>• Cronfa Buddsoddi mewn Galluogi Datblygu Tai |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Dim blaenoriaethau cefnogi wedi eu hadnabod |

# Rhaglen 2.2: Busnes



Mae busnesau wrth galon ein Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru. Maen nhw'n darparu'r gyflogaeth a'r cynhyrchedd sy'n cefnogi cyfraniad y Canolbarth at economïau Cymru a'r DU. Er bod data cychwynnol yn awgrymu bod cynhyrchedd isel yn nodweddu'r economi, mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bod modd gwneud enillion drwy adeiladu ar gryfderau sectorau allweddol a photensial arloesi'r rhanbarth.

Mae potensial ar gyfer twf mewn sawl sector gan gynnwys amaethyddiaeth, bwyd a ffermio (bio-economi), amddiffyn, sbectrwm radio a cherbydau awyr di-beilot ynghyd â thwristiaeth a hamdden ac uwch-weithgynhyrchu. **Mae angen rhaglen o gymorth busnes fydd yn darparu'r cymorth ariannol ac ehangach i fusnesau a sectorau penodol** i brofi a datblygu syniadau a sbarduno twf economaidd.

Bydd y rhaglen cymorth busnes yn cynnwys gweithredu cydgysylltiedig i gefnogi buddsoddi mewn ymchwil a'r cam masnachol ar gyfer prosiectau cerbydau awyr di-beilot, technoleg synhwyro o bell a chymwysiadau cysylltiedig, ac ar gyfer y sector amaeth-dechnoleg ac uwch-weithgynhyrchu. Yn ogystal â rhoi ffocws sector i fuddsoddiad busnes, mae hefyd angen ystyried ffocws gofodol unrhyw fuddsoddiad newydd. I'r perwyl hwn mae'r rhaglen fusnes wedi adnabod bod angen **rhaglen Parth Menter sector ac aml-safle** y gellid ei defnyddio i gyfeirio ac fel ffocws i fusnesau presennol a mewnfuddsoddiad newydd wrth farchnata Canolbarth Cymru i fuddsoddwyr yn y DU a thrwy'r byd.

Nodweddir Canolbarth Cymru fel ardal wledig iawn yn bennaf, gyda sylfaen fusnes sydd â chanran uchel iawn o fusnesau bach a meicro eu maint. Mae hyn yn cyflwyno cryn her gyda darparu cymorth, cyrraedd a chyfathrebu â'r sector preifat. Felly mae angen dull gwahanol wrth gyflwyno rhaglen fuddsoddi i ddarparu twf ar gyfer busnesau. **Dylid rhyddhau adnoddau ychwanegol i fusnesau bach a chanolig yng Nghanolbarth Cymru** i ganiatáu ar gyfer y ffaith bod angen mwy o amser a theithio'n bellach i ddarparu unrhyw gymorth. Er y gallai gwella'r cysylltedd digidol helpu gyda hyn, mae dosbarthiad y ddarpariaeth ar gyfer band-eang a ffonau symudol yn parhau i fod yn rhwystr ychwanegol i fusnesau.

Yn y tymor byr mae risg sylweddol i amaethyddiaeth yn y Canolbarth. Mae'r sector yn wynebu newidiadau helaeth o ganlyniad i Brexit a'r ymgynghori cysylltiedig ar y system daliadau newydd fydd yn disodli'r taliadau a wneir o dan y Polisi Amaeth Cyffredin, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS). Mae'r cynigion yma'n cynnig dull tra gwahanol o wneud taliadau, gan wobrwyo gwelliannau cynhyrchedd mewn cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel ynghyd â dull taliadau nwyddau cyhoeddus o dalu am wasanaethau ecosystem drwy reoli tir. Mae'r cyd-destun hwn yn cyflwyno her a chyfle o ran gwella cynhyrchedd, gan ychwanegu gwerth at gynhyrchion a phobl Canolbarth Cymru a dangos bod modd mabwysiadu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu'r sector. **Mae angen pecyn buddsoddi a chymorth ar gyfer amaethyddiaeth, ffermio a bwyd** i ateb yr heriau hyn a hefyd i gydnabod pwysigrwydd sylfaenol y sector i economi a chymunedau Canolbarth Cymru.

Byddai hyrwyddo prynu'n lleol, i ddechrau drwy brosiectau gwaith sector cyhoeddus mawr, contractau gwasanaeth a phrynu'n ehangach, yn cefnogi twf busnesau yn y rhanbarth. Byddai **rhaglen gaffael ar gyfer y rhanbarth** hefyd yn helpu i hyrwyddo cynnyrch lleol ac yn cysylltu i flaenoriaethau'r Rhaglen Lleoedd o hyrwyddo'r Canolbarth i fusnesau, ymwelwyr a buddsoddwyr.

Mae rhaglenni eraill yn y ddogfen hon yn atgyfnerthu hyn gyda chymorth penodol i sectorau allweddol, ond hefyd ac yn bwysig iawn, drwy fuddsoddi mewn seilwaith i ddarparu twf mwy hirdymor. Mae buddsoddi mewn seilwaith digidol yn greiddiol bwysig. Caiff hyn ei gydnabod gan sylwebyddion economaidd ac, yn anad dim, gan fusnesau fel y brif flaenoriaeth ar gyfer cefnogi eu datblygiad. Mae'r **Rhaglen Buddsoddi mewn Digidol** yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y rhwydwaith ffeibr a ffonau symudol drwy ystod o atebion technoleg gwahanol.

Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| Blaenoriaeth | Ymyriad |
|---|---|
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Dim ymyriadau wedi eu hadnabod |
| Blaenoriaethau Uchel | • Pecyn twf busnes ar gyfer y rhanbarth<br>• Dynodi Parth Menter Aml-safle ar gyfer y rhanbarth<br>• Pecyn cymorth a buddsoddiad ar gyfer amaeth, ffermio a bwyd |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Rhaglen gaffael Canolbarth Cymru<br>• Cynllun credydau treth Ymchwil a Datblygu |

# Rhaglen 2.3: Ynni



Mae asedau amgylcheddol ac arbenigedd y rhanbarth mewn technolegau carbon isel yn un o'i brif gryfderau fydd yn chwarae rôl sylfaenol mewn datblygu economi'r rhanbarth, ac economi'r DU, yn y dyfodol. Mae ynni carbon isel yn rhywbeth sy'n cynnig potensial aruthrol i'w allforio allan o'r rhanbarth ond hefyd i ddatblygu economi a chymunedau'r rhanbarth.

Mae capasiti presennol y rhwydwaith gwres a thrydan yn dal y rhanbarth yn ôl gan gyfyngu ar y potensial i drawsyrru a dosbarthu trydan. Oherwydd natur wledig y rhanbarth, mae mynediad at y grid i gwsmeriaid wedi'i gyfyngu ac mae'r diffyg capasiti'n debygol o gyfyngu ar dwf yr economi yn y dyfodol os na roddir sylw i hyn. Mae prosiectau cynhyrchu ynni mwy'n wynebu costau sylweddol i gysylltu i'r grid a chyfyngir hefyd ar y potensial i i ddatblygu mwy o safleoedd ynni adnewyddadwy llai. Mae angen **uwchraddio capasiti'r rhwydwaith** a lobïo i ennill cefnogaeth y cyhoedd i uwchraddio a chysylltu i'r grid. Mae hyn yn cynnwys ariannu cysylltiadau ehangach i greu capasiti newydd ynghyd ag ymchwil bellach i ddeall hyfywedd, cyllido a photensial dulliau o gyfuno prosiectau ynni adnewyddadwy llai.

Ffactor bwysig fydd yn dylanwadu ar y galw am drydan yn y tymor hirach yn y DU yw trydaneiddio trafnidiaeth, gan arwain at fwy o alw ar draws pob senario sydd wedi'i chynnig gan y Grid Cenedlaethol. Bydd hyn yn creu cyfle a her yn ymwneud â darparu seilwaith ategol i wefru cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig lle mae cyfyngiadau ar fynediad a symudedd. I'r perwyl hwn mae angen asesu pa mor ymarferol fyddai datblygu **rhaglen buddsoddi mewn trafnidiaeth carbon isel** i ddeall beth fyddai'r strategaeth orau ar gyfer mabwysiadu trafnidiaeth carbon isel yn y rhanbarth.

Mae datgarboneiddio'r cyflenwad trydan yn ffactor allweddol arall yn fwy hirdymor, ynghyd â system gyflenwi fwy datganoledig gyda mwy o ffocws ar ynni adnewyddadwy. Yn 2016 cafodd 653.2 GWh o ynni adnewyddadwy ei gynhyrchu yng Nghanolbarth Cymru[16] ac mae 6,010 o safleoedd ynni adnewyddadwy yn y rhanbarth. Mae angen rhaglen o gefnogi twf pellach mewn cynhyrchu ynni strategol a chymunedol, drwy **raglen ranbarthol o fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy**, i hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy yn y Canolbarth a gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr agenda newid hinsawdd a datgarboneiddio ar yr un pryd. Bydd ecsbloetio'r cyfleoedd hyn yn creu cyfle i ddatblygu'r economi ac ychwanegu gwerth ar gyfer busnesau a chymunedau'r rhanbarth a hefyd yn dangos y gall arwain ar gynhyrchu a storio ynni ar lefel y DU.

Yn y tymor hirach, mae'r potensial i ddatblygu'r economi hydrogen yn argoeli i fod yn rhan ganolog o strategaeth ynni'r DU. Gallai storio ynni a chynhyrchu hydrogen ddod â budd economaidd gwirioneddol i'r Canolbarth drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy a chyflenwad dŵr y rhanbarth i gynhyrchu hydrogen drwy electrolysis. Dylid ystyried **ymchwil gynnar i ymarferoldeb yr economi hydrogen** er mwyn gwella sefyllfa Canolbarth Cymru ac adnabod pa fuddsoddi sydd ei angen yn y dyfodol i harneisio asedau naturiol y rhanbarth.

Mae integreiddio'r cyfleoedd i gynhyrchu ynni carbon isel a thwf glân â'r holl raglenni blaenoriaeth eraill yn hanfodol bwysig i ychwanegu gwerth. I'r perwyl hwn mae cyfle sylweddol, er enghraifft, i gysylltu i'r rhaglenni eiddo a busnes er mwyn buddsoddi mewn **cynlluniau troi gwastraff yn ynni (amaethyddol a domestig),** ac adeiladu di-garbon a sgiliau cysylltiedig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r thema ehangach yn y ddogfen o ddefnyddio a chyfuno asedau naturiol a sector preifat y rhanbarth i greu amgylcheddau o ansawdd uchel i fusnesau; gan wneud cyfraniad ehangach at ddatgarboneiddio a diogelwch ynni a dangos y gallai'r ardal chwarae rôl flaenllaw yn yr economi gylchol a thwf glân.

[16] Ffynhonnell: Yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy (MWh) ar Lefel Awdurdod Leol, 2016

Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| Blaenoriaeth | Ymyriad |
|---|---|
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Uwchraddio a chyd-fuddsoddi yng nghapasiti'r rhwydwaith |
| Blaenoriaethau Uchel | • Troi gwastraff yn ynni / cyfuno gwres a thrydan (CHP)<br>• Rhaglen ranbarthol o fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy<br>• Astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer economi hydrogen |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Rhaglen trafnidiaeth carbon isel<br>• Rhaglen cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer cymunedau a busnesau gwledig |

# Amcan 3: Canolbarth Cymru Cysylltiedig a Diwylliannol Unigryw

# Rhaglen 3.1: Digidol



Ystyrir bod cysylltedd band-eang a ffôn symudol cyflym a sefydlog yn gwbl angenrheidiol i fyw yn yr oes sydd ohoni, fel y noda Strategaeth Ddigidol Llywodraeth y DU[17]. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n helaeth mewn cyfathrebu digidol drwy Cyflymu Cymru, gan wella cysylltedd band-eang i dros 700,000 eiddo. Bydd Cyflymu Cymru II yn buddsoddi £80m arall i ganolbwyntio ar gysylltu ardaloedd anoddach i'w cyrraedd. Fodd bynnag, mae angen **parhau i fuddsoddi mewn cysylltedd band-eang cyflym a gwibgyswllt.** Mae gan 95% o eiddo ar draws y DU Band-eang Cyflym drwy wifren ffôn, o'i gymharu â 79% o eiddo ym Mhowys a 78% yng Ngheredigion[18]. Yn ôl busnesau yn y Canolbarth mae cysylltedd digidol gwell yn hanfodol bwysig i gefnogi twf economaidd yn y rhanbarth. Bydd angen mwy o fuddsoddi mewn band-eang cyflym a gwibgyswllt yng Nghanolbarth Cymru i aros ar y blaen i ranbarthau eraill.

Mae dosbarthiad y rhwydwaith signal symudol hefyd ar ei hôl hi o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Nid yw tua 1.3% o'r DU yn derbyn unrhyw signal 3G o gwbl, o'i gymharu â 8.4% o adeiladau ym Mhowys a 7.8% yng Ngheredigion °. Mae darlun y dosbarthiad 4G yn debyg[19]. Gallai Parthau Signal Symudol wella'r gwasanaeth ar gyfer llais a data mewn 'heb-fannau', gan gryfhau rhwydweithiau symudol lle mae'r cysylltedd yn wael neu lle mae'r cynnydd yn y galw am signal ffôn (e.e. digwyddiadau mawr) yn bygwth gwydnwch y rhwydwaith. Byddai blaenoriaethu buddsoddi mewn cyflwyno **Parthau Signal Symudol** a mesurau eraill i wella cysylltedd ar gyfer safleoedd cyflogaeth, prif drefi a phentrefi a chyrchfannau ymwelwyr y rhanbarth yn ateb problem seilwaith sylweddol.

Bydd cysylltedd digidol yn cael ei wella ymhellach, ynghyd â thwf economaidd a chydlyniant cymunedol, drwy rwydwaith o **Hybiau Gigabit** yn y rhanbarth. Mae Hybiau Gigabit – canolfannau ffisegol sy'n cynnig cysylltiad gigabit yn ogystal â gofod gweithio rheoledig ar y cyd – wedi bod yn arbennig o effeithiol i hyrwyddo twf economaidd yng nghefn gwlad Iwerddon. Mae ganddynt botensial i chwarae rôl debyg mewn trefi marchnad yn y Canolbarth a nodweddir gan gymunedau gwasgaredig, hunan-gyflogaeth a lefelau gwael o gysylltedd digidol.

Rhoddir blaenoriaeth hefyd i gysylltedd trefi gwledig y rhanbarth drwy fuddsoddi mewn a chyflwyno'r rhaglen **Wi-fi canol trefi.** Mae cynlluniau peilot yn Llandrindod ac Aberteifi wedi dechrau edrych ar fanteision stryd fawr wedi'i chysylltu'n ddigidol. Bydd eu cyflwyno ar draws y rhanbarth yn lledaenu'r manteision i gysylltu cymunedau ac ymwelwyr yn well; ac fel bod busnesau yn gallu deall ymddygiad eu cwsmeriaid a hyrwyddo cynhyrchion a chynigion arbennig iddynt. Drwy fuddsoddi mewn cysylltu gigabit, Wi-fi canol trefi a dadansoddi data, bydd Canolbarth Cymru'n gallu creu 'Pentrefi Digidol' fydd yn ecsbloetio'r cysylltedd da i wahodd preswylwyr, busnesau ac asiantaethau i ddatblygu cymwysiadau sy'n gwella ansawdd bywyd, cyfranogiad y gymuned a mynediad at wasanaethau.

Gellir creu mwy o gyfleoedd twf busnes drwy weithredu **Lorawan Canolbarth Cymru (Rhwydwaith Ardal Eang Dros Bellter).** Bydd Lorawan[20] yn cynnig rhwydwaith 'rhyngrwyd pethau' i Ganolbarth Cymru sy'n ddelfrydol i ardaloedd gwledig oherwydd gellir ei ddarparu dros ardal eang am gost isel. Mae rhwydweithiau Lorawan yn hwyluso cyfathrebu rhwng cymwysiadau, dyfeisiau neu synwyryddion. Mae'n cynnig cyfle sylweddol i drawsnewid y sector ffermio yn y Canolbarth ar gyfer monitro da byw, rheoli stâd a rheoli tir. Bydd cysylltu'r buddsoddiad sydd mewn golwg i'r arbenigedd ym Mhrifysgol Aberystwyth, a'r Ganolfan Sbectrwm newydd yn creu potensial i roi sector amaeth Canolbarth Cymru ar flaen y chwyldro mewn technoleg ac arferion newydd.

Mae darparu technoleg a seilwaith digidol modern yn hanfodol os yw'r Canolbarth am fod yn rhanbarth cystadleuol a chysylltiedig. Rhaid hefyd chwalu unrhyw rwystrau i fanteisio'n llawn ar dechnoleg ddigidol. Mae angen cefnogi pobl i ecsbloetio a manteisio ar dechnoleg ffôn symudol, band-eang cyflym, digidol a Lorawan drwy **raglen estynedig o gymorth busnes.**

[17] Ffynhonnell: Adran y Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon, 2017
[18] Ffynhonnell: Think Broadband. Chwarter 1, 2018.
[19] Ffynhonnell: Adroddiad *Connected Nations (mobile local authority)* Ofcom, 2016
[20] Drwy Rwydwaith Lorawan, gall dyfeisiau pŵer isel (yn defnyddio ychydig o bŵer) gysylltu i'r rhyngrwyd dros bellter hir

Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| Blaenoriaeth | Ymyriad |
|---|---|
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Hybiau Gigabit ym mhrif drefi'r rhanbarth. |
| Blaenoriaethau Uchel | • Parhau i ddatblygu band-eang cyflym a gwibgyswllt yng Nghanolbarth Cymru:<br>– Blaenoriaethu rhanbarth Canolbarth Cymru ar gyfer rhaglen Cyflymu Cymru II.<br>– Buddsoddi ymhellach mewn band-eang Cyflym a Gwibgyswllt yn y Canolbarth.<br>– Cefnogi cyflwyno band-eang di-wifr (e.e.tonnau awyr) mewn ardaloedd gwledig anghysbell.<br>• Rhwydwaith cynhwysfawr o barthau signal ffôn ar draws y rhanbarth.<br>• Rhwydwaith Lorawan ar gyfer y rhanbarth. |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Pecyn cymorth busnes i ddarparu cysylltedd digidol.<br>• Technoleg Wi-fi a dadansoddi data mewn trefi marchnad a chyrchfannau twristiaeth. |

# Rhaglen 3.2: Lle



Mae Canolbarth Cymru'n rhanbarth unigryw gyda threftadaeth gyfoethog. Mae 29% o breswylwyr y rhanbarth yn siarad Cymraeg, gan godi bron i hanner y preswylwyr yng Ngheredigion. Mae'r rhanbarth yn cynnwys ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Mynyddoedd Cambria ac mae'r arfordir dilychwin yn cynnig pump o draethau baner las a mynediad at amrywiaeth eang o fywyd môr. Mae gan y rhanbarth hefyd rwydwaith o lwybrau hamdden lleol a chenedlaethol ynghyd â threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sy'n rhoi cyfle i bobl fwynhau a darganfod harddwch naturiol yr ardal fel Camlesi Trefaldwyn a Sir Fynwy ac Aberhonddu.

Mae asedau naturiol y rhanbarth yn cynnal y sector twristiaeth oedd yn werth tua £1.08 biliwn yn 2016. Maen nhw hefyd yn cynnal y diwydiannau amaethyddol a chynhyrchu bwyd sy'n greiddiol bwysig i economi, diwylliant a threftadaeth y rhanbarth. Rhoddir hwb pellach i dwristiaeth gan amrywiol ddigwyddiadau blynyddol. Mae Maes Sioe Frenhinol Cymru'n gaffaeliad mawr i'r rhanbarth gan gynnal rhaglen o ddigwyddiadau blynyddol fel Sioe Frenhinol Cymru – y sioe amaethyddol fwyaf yn Ewrop – a chynnig potensial twf pellach ar gyfer twristiaeth ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau eraill fel Rali Cymru, Gŵyl y Gelli, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Bae Ceredigion yn ychwanegu at yr arlwy gydag ystod amrywiol o ddigwyddiadau llai hefyd yn cael eu cynnal ar draws y rhanbarth.

Prif drefi'r Canolbarth (Aberystwyth a'r Drenewydd) yw prif ganolfannau gweinyddol a masnachol y rhanbarth. Cryfheir sefyllfa Aberystwyth gan ei rôl fel tref brifysgol fywiog gyda thua 8,500 o fyfyrwyr ac mae hefyd yn gartref i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r Canolbarth hefyd yn cynnig rhwydwaith o bentrefi a threfi marchnad unigryw sy'n ganolbwynt ar gyfer busnes a menter. Rhaid parhau i fuddsoddi er mwyn cynnal twf a bywiogrwydd y canolfannau hyn fel lleoedd i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Mae cyfle sylweddol i adeiladu ar natur unigryw Canolbarth Cymru i gynyddu twristiaeth a thyfu'r economi. Yn ôl busnesau, mae diffyg llety o safon mewn rhai rhannau o'r rhanbarth a chyfle'n bodoli i dyfu'r farchnad gynadledda ymhellach. Mae hefyd angen gwella'r seilwaith digidol a ffôn symudol, a chysylltiadau trafnidiaeth, os yw'r economi ymwelwyr i aros yn gystadleuol. Mae cyfle pellach hefyd i adeiladu ar waith partneriaethau cyrchfannau'r rhanbarth ac ecsbloetio rhaglenni fel Ffordd Cymru i werthu'r Canolbarth i gynulleidfa ehangach drwy becynnu asedau twristiaeth yr ardal a hwyluso cyfleoedd i ddatblygu atyniadau ymwelwyr proffil uwch yn y rhanbarth. Bydd y pethau hyn i gyd yn cael sylw drwy **becynnau buddsoddi twristiaeth strategol** ac **ymgyrch marchnata lle gydgysylltiedig** ar gyfer y Canolbarth.


Mae arfordir y Canolbarth yn gartref i rwydwaith o gyfleusterau harbwr sy'n ychwanegu at y darlun o'r rhanbarth a'i botensial pellach. Mae harbwr Aberaeron yn rhoi hunaniaeth weledol unigryw i'r dref ac yn atyniad mawr i ymwelwyr a thwristiaid. Mae harbwr Cei Newydd yn cynnal masnach dwristiaeth fywiog iawn ar sail ansawdd ei gynefin morol naturiol, ac mae gan Aberteifi hanes hir o fasnach a llongyddiaeth. Mae cyfle sylweddol i ddenu **buddsoddiad i harbwrs y rhanbarth** er mwyn arallgyfeirio'r diwydiant twristiaeth, creu mwy o elw iddo a chyfrannu at dwf economi'r Canolbarth.

Bydd blaenoriaethu gweithredu i adeiladu ar leoedd unigryw'r rhanbarth yn creu gwaith, yn gwneud prif drefi'r ardal yn fwy cynaliadwy ac yn cyfoethogi naws lle Canolbarth Cymru. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:

| Blaenoriaeth | Ymyriad |
|---|---|
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Pecyn buddsoddi lle strategol ar gyfer trefi a phentrefi allweddol:<br>– Cyfleusterau digwyddiadau a chynadleddau newydd a modern.<br>– Canolfan Bwyd a Diod ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.<br>– Datblygu atyniadau cyrchfannau twristiaeth strategol o werth uchel.<br>– Gwella darpariaeth llety ymwelwyr a gwesty'r rhanbarth.<br>– Buddsoddi yn harbwrs y rhanbarth. |
| Blaenoriaethau Uchel | • ymgyrch marchnata lle gydgysylltiedig ar gyfer y Canolbarth. |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Parthau Gwella Busnes ar draws y rhanbarth.<br>• |

# Rhaglen 3.3: Trafnidiaeth

Mae seilwaith trafnidiaeth effeithlon, modern ac addas i'r pwrpas yn hanfodol os yw'r Canolbarth i gyflawni ei botensial economaidd.



Mae rhwydwaith ffyrdd y rhanbarth yn cynnwys cyfres o ffyrdd A a B un gerbydlon. Mae'r ffactorau craidd sylfaenol o fod yn anghysbell, amseroedd siwrne hir, diffyg gwydnwch a thagfeydd wrth gyffyrdd prysur i gyd yn cyfyngu ar deithio ar hyd y ffyrdd o gwmpas y rhanbarth. Mae cyflymderau siwrneiau mewn ceir ar adegau llai prysur rhwng Birmingham ac Aberystwyth yn 43 mya, sy'n is na chyflymderau siwrneiau ar hyd ffyrdd yng Ngogledd Cymru (Warrington i Fangor – 48 mya ar gyfartaledd) a De Cymru (Bryste i Abertawe – 53 mya ar gyfartaledd)[21]. Ar adegau llai prysur mae'r gwahaniaeth rhwng cyflymderau siwrneiau, o'i gymharu â rhanbarthau eraill, yn syfrdanol. Mae'r pellter hir i gyrraedd y prif drefi'n gwaethygu cyflymderau siwrneiau ara' deg, yn enwedig i lorïau HGV, ac yn creu effeithiau cysylltiedig o ran costau.

Mae llawer o'r pellter ar hyd ffyrdd y rhanbarth yn Lloegr sy'n dangos pa mor bwysig yw parhau i weithio'n drawsffiniol ag awdurdodau lleol a Midlands Connect i sicrhau bod cynlluniau fel yr A458 / A483, A5 a Ffordd Doll yr M54 / M6 yn digwydd er mwyn diogelu manteision unrhyw gynlluniau cefnffyrdd ar gyfer Canolbarth Cymru yn y dyfodol (gan gynnwys Cynlluniau Mannau Cyfyng) – oherwydd hebddynt ni wireddir y manteision llawn.

Nodweddir rhwydwaith rheilffyrdd y rhanbarth hefyd gan gyflymderau ara' deg a gwasanaethau anaml. Mae'r cyflymderau cyfartalog rhwng Birmingham New Street ac Aberystwyth yn 43 mya o'i gymharu â 52 mya ar hyd coridor rheilffyrdd Gogledd Cymru rhwng Bangor a Warrington[22]. Mae'r cyfuniad o gyflymderau ara' deg a'r pellter rhwng Canolbarth Cymru a phrif farchnad Gorllewin Canolbarth Lloegr yn debygol o lesteirio gwireddu manteision llawn y bwriad i gyflwyno stoc rholio newydd ar hyd Prif Reilffordd y Cambrian a'r gwasanaeth trenau pob awr llawn. Rhaid cael g□asanaeth trenau pob a□r lla□n i Birmingham International; ehangu g□asanaethau Rheilffordd Calon Cymru a rhai ar hyd Prif Reilffordd y Cambrian i Crewe a Manceinion er mwyn cysylltu i HS2 os am wireddu potensial y gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghanolbarth Cymru. Rhaid hefyd datblygu llwybrau teithio strategol TrawsCymru, canolfannau / cyfnewidfeydd bysus strategol pellter hir, buddsoddi mewn seilwaith a thocynnu clyfar, i wella rhwydweithiau trafnidiaeth integredig yn y rhanbarth.

Mae hyrwyddo a chynyddu teithio llesol hefyd yn rhan bwysig o'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol yn y rhanbarth ynghyd â chefnogi tripiau cymudo byr a chynnig manteision iechyd a lles sydd hefyd yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio. Mae Cynllun Trafnidiaeth Ar y Cyd Canolbarth Cymru[23] yn nodi'n glir mai ychydig iawn o ardaloedd yn y rhanbarth sydd â mwy na 13% o bobl yn cerdded a beicio i'r gwaith ac y byddai buddsoddi yn y seilwaith beicio a cherdded yn annog mwy o feicio.

Rhaid buddsoddi yn seilwaith trafnidiaeth y rhanbarth i wireddu ei botensial ar gyfer twf ac i weithredu'r ymyriadau blaenoriaeth eraill y cyfeiriwn atynt yn y ddogfen hon. Mae'r blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn cynnwys:


| **Blaenoriaeth** | **Ymyriad** |
| --- | --- |
| Blaenoriaethau Trawsnewid | • Cysylltedd y rhanbarth drwy wella ffyrdd strategol trawsffiniol a chysylltedd teithio ymlaen drwy 'Rwydwaith Ffyrdd Strategol' Highways England. |
| Blaenoriaethau Uchel | • Coridorau trafnidiaeth strategol: Ffyrdd.<br>• Coridorau trafnidiaeth strategol: Rheilffyrdd.<br>• Pecyn masnach cludo a logisteg digyfyngiad. |
| Blaenoriaethau Cefnogi | • Pecyn o fesurau ar gyfer y rhwydwaith cysylltu gwasanaethau trafnidiaeth.<br>• Pecyn o fesurau ar gyfer teithio llesol.<br>• Galluogi cysylltedd gwledig. |

[21] AA Routemaster (ar sail amseroedd brig mewn car)
[22] Mae'r ffigur hwn ar gyfer y gwasanaeth uniongyrchol rhwng Warrington a Bangor.
[23] Ffynhonnell: Cynllun Trafnidiaeth Ar y Cyd Canolbarth Cymru, 2015.

# 4. Canlyniadau Strategol

Byddwn yn monitro ein llwyddiant drwy sicrhau newidiadau cadarnhaol i'r dangosyddion canlynol:

- Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros
- Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir
- Enillion Wythnosol Gros Cyfartalog
- % o'r Gyflogaeth mewn Sectorau Twf Gwerth Uchel
- Incwm Gwario Gros yr Aelwyd
- % o Brentisiaethau fel Cyfran o'r Holl Gyflogaeth
- % o'r Boblogaeth gyda Chymwysterau (NQF4+)



# 5. Y Camau Nesaf

Mae'r ddogfen hon ar gyfer Blaenoriaethau Economaidd Strategol Canolbarth Cymru wedi'i datblygu ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'n cyflwyno blaenoriaethau trawsnewid, uchel a chefnogi ar gyfer tyfu economi'r rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Yr hyn sydd wedi goleuo'r blaenoriaethau yw perfformiad presennol economi'r rhanbarth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a thystiolaeth o ymyriadau llwyddiannus mewn rhanbarthau eraill i greu'r sail ar gyfer ein dull dros y 15 mlynedd nesaf.

Argymhellir y camau nesaf canlynol wrth weithredu'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer y Canolbarth:

- Sefydlu'r trefniadau llywodraethu i arwain a sicrhau adnoddau ar gyfer datblygu'r rhaglenni blaenoriaeth.
- Datblygu capasiti yn y rhanbarth, gan gynnwys sefydlu gweithgorau i arwain ar ddatblygu'r rhaglenni blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. Dylai'r gweithgorau gynnwys cynrychiolaeth o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Dylai pencampwr lefel uwch arwain pob gweithgor ac adrodd i'r trefniadau llywodraethu newydd.
- Adnabod cyfleoedd ariannu, gan gynnwys y Fargen Dwf bosib ar gyfer y rhanbarth, er mwyn datblygu a darparu'r blaenoriaethau yn y ddogfen hon.
- Datblygu achosion busnes ar gyfer pob rhaglen fuddsoddi er mwyn gallu adnabod pob opsiwn a ffafrir ar gyfer pob prosiect a rhaglen.
- Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer gweithredu'r rhaglenni blaenoriaeth.

# Atodiad A: Crynodeb o'r Ymyriadau Blaenoriaeth

## Canolbarth Cymru Arloesol a Medrus

### Sgiliau a'r Gweithlu

#### Trawsnewid

- **System sgiliau seiliedig ar dystiolaeth i Ganolbarth Cymru** – system sgiliau bwrpasol, seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Canolbarth Cymru sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr y rhanbarth. Byddai'r system bwrpasol ar gyfer y Canolbarth yn cael ei harwain gan fwrdd sgiliau neu grŵp strategol rhanbarthol gan ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i gynnig atebion i broblemau galw a chyflenwad sgiliau. Bydd y dull seiliedig ar dystiolaeth yn goleuo'r ddarpariaeth addysg a sgiliau o Gyfnod Allweddol 4 ymlaen tan Addysg Uwch, ac yn adnabod llwybrau gyrfaol clir at gyflogaeth i bobl ifanc yn y rhanbarth.

  Dylai'r system dystiolaeth weithio i lenwi bylchau, ychwanegu gwerth a theilwrio cymorth drwy Cymru'n Gweithio, y Porth Cyflogadwyedd, Gyrfa Cymru, darparwyr Addysg Bellach ac Uwch, a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y rhanbarth i ateb anghenion cyflogwyr. Dylai sicrhau bod y system sgiliau'n ystyried y newid yn y galw am weithlu yn y dyfodol o ganlyniad i Ddiwydiant 4.0. Bydd y system seiliedig ar dystiolaeth yn goleuo:

  - Cyngor gyrfaol, profiad gwaith a lleoliadau gwaith;
  - Codi ymwybyddiaeth o'r prentisiaethau, Prentisiaethau Uwch a'r Prentisiaethau Gradd sydd ar gael yn economi Canolbarth Cymru, gyda ffocws ar sectorau twf a newydd;
  - Dulliau a threfniadau i gefnogi prentisiaethau (e.e. cynllun rhannu prentis a gwasanaeth paru) os oes digon o alw am gyflogaeth;
  - Gwasanaeth cymorth cyflogaeth i breswylwyr yn chwilio am waith;
  - Cymorth i ddatblygu'r gweithlu mewn ymateb i swyddi sgiliau prin a bwlch sgiliau; a
  - Darpariaeth Addysg Bellach ac Uwch sy'n ymateb i'r bwlch sgiliau yn y rhanbarth yn ôl cyflogwyr.

#### Blaenoriaeth Uchel

- **Canolfan(nau) Prifysgol Canolbarth Cymru** – canolfan(nau) prifysgol yng Nghanolbarth Cymru a allai wella mynediad at Addysg Uwch yn y rhanbarth a chynyddu lefelau cymwysterau. Gellir datblygu'r ganolfan fel rhan o 'Ganolfan Ragoriaeth' ar gyfer gwahanol sectorau (e.e. gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a bwyd, gofal ac iechyd) fel bod pobl ifanc yn gallu astudio'n lleol ac i ateb pryderon ynghylch colli pobl ifanc o'r rhanbarth i fynd i astudio, ac i ddenu buddsoddiad newydd.

#### Cefnogi

- **Addewid cyflogwyr Canolbarth Cymru** – datblygu addewid gan gyflogwyr y rhanbarth, mewn partneriaeth â sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a rhanddeiliaid eraill, i godi ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaol yn y rhanbarth a chadw pobl ifanc yma. Byddai addewid cyflogwyr yn annog busnesau yn y Canolbarth i gefnogi pobl ifanc drwy fynychu ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau ymgysylltu ag ysgolion a thrwy gynnig profiad gwaith. Dylid hefyd rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr Addysg Bellach ac Uwch i annog pobl ifanc i dderbyn prentisiaethau a lleoliadau gwaith ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth ar ôl iddynt adael addysg.

- **Cefnogi dull newydd ac amgen o ddarparu sgiliau** – cefnogi dulliau eraill, newydd a hyblyg o ddarparu sgiliau yng Nghanolbarth Cymru. Dylai hyn ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi cynigion oddi mewn i Ganolbarth Cymru sy'n cynyddu mynediad at ddarparwyr hyfforddiant o safon, Addysg Bellach ac Uwch neu sy'n cynnig cwricwlwm neu ddulliau darparu arloesol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

# Arloesi

## Trawsnewid

- **Pecynnau buddsoddi mewn cyfleoedd strategol** – buddsoddi (e.e. drwy ganolfannau ymchwil a sgiliau pwrpasol, parthau arloesi, cronfeydd ymchwil a datblygu a rhaglenni cadwyni cyflenwi) mewn cyfleoedd strategol i hybu twf sectorau penodol, gan gynnwys:
  - Sbectrwm Radio – mae gan Ganolbarth Cymru gyfle i ddatblygu marchnad arbenigol yn ymwneud ag arbrofi, arloesi a datblygu cynhyrchion newydd drwy bartneriaeth ag Addysg Uwch a diwydiant. Dylai unrhyw bartneriaeth gydweithredol geisio defnyddio sbectrwm i achub ar bob cyfle (e.e. amaethyddiaeth fanwl a deallus, cerbydau tir, môr ac awyr awtonomaidd) yn ymwneud â chryfderau sector y rhanbarth a hefyd i oresgyn yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth mewn ardal wledig eang a gwasgarog ei phoblogaeth (e.e. systemau trafnidiaeth iechyd a deallus).
  - Cerbydau awyr di-beilot / awyrennau a reolir o bell – mae gan Ganolbarth Cymru arbenigedd sector mewn cerbydau awyr di-beilot ac a reolir o bell. Mae'r rhanbarth mewn sefyllfa ddelfrydol i ecsbloetio'r arbenigedd hwn ymhellach o ystyried dwysedd isel y boblogaeth, bod yma awyrofod neilltuol, cyfleusterau maes awyr sy'n cynnig potensial i ehangu, ac arbenigedd ymchwil Addysg Uwch y rhanbarth.
  - Gweithgynhyrchu – cyflogir dros 6,600 o bobl yn y sector gweithgynhyrchu yn y Canolbarth, eu hanner yn y sector uwch-weithgynhyrchu. Mae gan y rhanbarth is-sectorau gweithgynhyrchu arbenigol fel awtomatiaeth a pheirianneg symudedd sydd i gyd â photensial ar gyfer twf (e.e. y ganolfan profi rheilffyrdd arfaethedig yn Ystradgynlais). Bydd Diwydiant 4.0 (digideiddio gweithgynhyrchu) yn newid sut y mae'r sector gweithgynhyrchu'n gweithio a'i ofynion sgiliau yn y dyfodol.
  - Amaethyddiaeth a'r bio-economi – adeiladu ar sylfaen asedau'r rhanbarth (e.e. AIEC, BEACON, IBERS a chanolfan gwyddorau milfeddygaeth Cymru) i ddatblygu rôl flaenllaw Canolbarth Cymru yn y bio-economi ymhellach, ac yn bwysig iawn, sicrhau bod y manteision yn cefnogi'r sector bio-economi ac amaeth yn y rhanbarth.
  - Yr economi hydrogen – pecyn cymorth i ddatblygu'r economi hydrogen yng Nghanolbarth Cymru, gan adeiladu ar bresenoldeb busnesau sydd yma'n barod ac sydd â photensial twf hirdymor. Mae'r pecyn cymorth yn amodol i ganfyddiadau'r astudiaeth ymarferoldeb y cyfeiriwyd ati fel blaenoriaeth yn yr ymyriadau Ynni.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Datblygu Canolfannau Menter ac Arloesi (Hybiau Gigabit) yn y prif drefi ar draws y rhanbarth.** Bydd y canolfannau hyn yn darparu gwasanaethau cymorth i gyflogwyr, gofod gweithio hyblyg ar y cyd a chyfleusterau cyfarfod i gefnogi menter ac arloesi mewn rhanbarth sydd â chyfran uchel iawn o fusnesau bach a meicro. Bydd y canolfannau hefyd yn hybiau gigabit (wele'r ymyriadau 'digidol' sydd mewn golwg) gan adeiladu ar arferion gorau yng nghefn gwlad Iwerddon. Mae'r canolfannau'n darparu cysylltiad band-eang ffeibr un gigabit am ddim am amser penodol i annog busnesau newydd a rhai presennol i ecsbloetio potensial technoleg ar-lein a mynediad at farchnadoedd.

## Cefnogi

- **Sefydlu cronfa arloesi a banc syniadau** – cronfa arloesi ecwiti a banc syniadau i roi buddsoddwyr mewn cysylltiad ag unigolion a busnesau sydd â syniadau a chynhyrchion yn y cam cynnar arloesol a allai greu twf economaidd a swyddi yn y dyfodol. Bydd yn ceisio adeiladu ar y rhaglen 'Creu Sbarc' gyda ffocws arbennig ar y sectorau blaenoriaeth yng Nghanolbarth Cymru.

# Canolbarth Cymru Cystadleuol a Chynaliadwy

# Eiddo

## Trawsnewid

- **Rhaglen Buddsoddi mewn safleoedd cyflogaeth strategol allweddol** - ehangu a datblygu nifer fach o safleoedd cyflogaeth targed yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd strategol i economi a thwf y rhanbarth yn y dyfodol. Mae safleoedd yn debygol o gael eu hadnabod oherwydd eu lleoliad daearyddol strategol, eu cysylltiadau â chyfleoedd buddsoddi a sector allweddol a'r potensial i ddarparu pecyn cymorth busnes integredig.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Pecyn buddsoddi targed ac arloesol ar gyfer safleoedd ac eiddo cyflogaeth** – byddai'r pecyn buddsoddi targed ar gyfer safleoedd ac eiddo cyflogaeth yn cynnwys arian buddsoddi uniongyrchol ar gyfer tir ac adeiladau newydd a / neu seilwaith ategol fel ffyrdd mynediad a chyfleustodau. Dylai'r Rhaglen geisio defnyddio mesurau gan gynnwys Gorchmynion Datblygu Lleol, a darparu dyraniadau tir ychwanegol gerllaw neu'n agos at y canolfannau galw presennol ynghyd â defnyddio dull mwy hyblyg o gynllunio ar gyfer tir ac adeiladau cyflogaeth. Dylai'r pecyn ddarparu opsiynau tir prydles a rhydd-daliad i annog busnesau i adleoli a buddsoddi mewn safleoedd targed, ynghyd â mesurau i gefnogi ailwampio adeiladau nad ydynt mwyach yn ateb anghenion y farchnad. Byddai'r pecyn hefyd yn cynnwys cronfa ddata o safleoedd ac adeiladau masnachol yn y rhanbarth ynghyd â gwasanaeth ymholiadau wedi'i gynorthwyo gan broses drylwyr o asesu a mesur y galw am dir cyflogaeth.
- **Cronfa Buddsoddi mewn Galluogi Datblygu Tai** – i alluogi datblygu safleoedd tai sydd ar stop am y tro drwy ddarparu cyllid llenwi bwlch a mynediad at gyllid lle mae'r datblygiad yn anhyfyw oherwydd methiannau marchnad fel cyfyngiadau safle, gofynion seilwaith ac effaith y datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd cyfagos, er enghraifft. Gallai'r ymyriad hwn hefyd dargedu uwchraddio'r stoc dai bresennol i'w codi i safonau modern a chynnwys Siop Tir i Godi Tai ar gyfer y Canolbarth yn gwerthu lleiniau tir i rai sydd am adeiladu eu cartrefi eu hunain. Byddai Siop Tir i Godi Tai yn helpu i farchnata'r tir sydd ar gael i rai sy'n dymuno adeiladu eu cartref eu hunain a hefyd yn cynnig cyngor a gwasanaethau arbenigol.

## Cefnogi

- Dim ymyriadau cefnogi mewn golwg.

# Busnes

## Trawsnewid

- Dim ymyriadau trawsnewid mewn golwg.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Pecyn twf busnes Canolbarth Cymru** – dylai'r pecyn gael ei dywys gan strategaeth mewnfuddsoddiad a thwf busnes i helpu busnesau i sefydlu o'r newydd a busnesau presennol y rhanbarth, gan gydnabod pwysigrwydd busnesau bach a chanolig i'r economi ond ceisio denu busnesau newydd i'r rhanbarth hefyd. Mae'n hanfodol bod yr ymyriad hwn yn ychwanegu gwerth at, yn hytrach na'n dyblygu'r cymorth sydd eisoes ar gael gan Busnes Cymru ac asiantaethau eraill, a gallai gynnwys:
  - Cymorth rheoli ychwanegol i fusnesau bach a meicro i'w helpu i sefydlu a thyfu eu busnes drwy 'raglen cyflymu twf'.
  - Cymorth i helpu busnesau i fanteisio ar gyfleoedd yn gysylltiedig â thechnoleg newydd ac awtomatiaeth, o fewn eu busnesau eu hunain ac ar draws eu cadwyni cyflenwi (wele'r Rhaglen Ddigidol).
  - Cymorth i ganfod cyfleoedd masnach ac allforio newydd yn ogystal â chyngor ariannu a chyllid busnes.
  - Gwaith hyrwyddo i werthu Canolbarth Cymru i fewnfuddsoddwyr ac ymwelwyr (wele'r Rhaglen Lle).
  - Adnodd cymorth busnes a mewnfuddsoddiad dynodedig ac ehangach i ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a gynigir gan Busnes Cymru, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill er mwyn cefnogi busnesau a denu buddsoddiad i'r Canolbarth. Dylai hyn gynnig siop-un-stop ehangach drwy ddarparu gwybodaeth, cymorth, marchnata a chyngor i fusnesau'r rhanbarth gyda ffocws ar sectorau cyfleoedd allweddol.
- **Dynodi Parth Menter Aml-safle i Ganolbarth Cymru** – dynodi Parthau Menter mewn lleoliadau allweddol ar draws y rhanbarth. Dylai'r cymhellion a fydd ar gael adlewyrchu sgôp y Rhaglen Arloesi o ddarparu safleoedd ac adeiladau strategol (wele'r Rhaglen Eiddo).
- **Pecyn cymorth a buddsoddiad ar gyfer amaeth, ffermio a bwyd** – pecyn buddsoddi mewn:
  - Profi a chymhwyso ymchwil a datblygu rhanbarthol yn y sectorau amaeth-dechnoleg a bwyd.
  - Ynni adnewyddadwy ar raddfa fferm.
  - Adeiladau gwledig segur neu gyda photensial datblygu. Gallai hyn ysgogi ailddefnyddio adeiladau at bwrpas economaidd a masnachol drwy gynnig cymorth ariannol a chynllunio mwy hyblyg ar gyfer newid defnydd ac arallgyfeirio'n dilyn Brexit.
- Gellid hefyd defnyddio'r pecyn i annog trosglwyddo ffermydd i genhedlaeth newydd o ffermwyr gyda mwy o ffocws ar ychwanegu gwerth a chynhyrchedd.

## Cefnogi

- **Rhaglen gaffael Canolbarth Cymru** – datblygu dull caffael cyson er mwyn hyrwyddo prynu'n lleol ac ymrwymiadau gwerth cymdeithasol ar gyfer contractau i wneud gwaith sector cyhoeddus mawr, contractau gwasanaeth, a phrynu ehangach. Dylid targedu'r rhaglen gaffael i ddechrau at gynyddu cyfran y 'cynnwys lleol' sy'n cael ei gaffael drwy sefydliadau sector cyhoeddus blaenllaw yn y rhanbarth. Mae potensial hefyd i gyflwyno'r dull caffael i'r sector twristiaeth (e.e. darparwyr llety, tai bwyta, atyniadau a digwyddiadau) er mwyn creu cynnig twristiaeth unigryw ar gyfer Canolbarth Cymru.
- **Cynllun credydau treth Ymchwil a Datblygu** – mae'r cynllun hwn yn cael ei danddefnyddio gan fusnesau ar draws Cymru a'r DU. Mae cynllun credydau treth ar gyfer y rhanbarth yn gyfle pwysig, ynghyd â'r gwasanaeth cymorth busnes ehangach, i fanteisio i'r mwyaf ar gredydau treth ac annog buddsoddi mewn ymchwil a datblygu.

# Ynni

## Trawsnewid

- **Cyd-fuddsoddi ac uwchraddio capasiti'r rhwydwaith** – mae angen uwchraddio ac efallai cyd-fuddsoddi yn y seilwaith hollbwysig sydd ei angen i ddatgloi cyfleoedd i sicrhau mwy o ddiogelwch a gwydnwch ynni ar gyfer y rhanbarth er mwyn cefnogi twf a manteision y sector i'r rhanbarth yn y dyfodol. Drwy hyn bydd modd cysylltu cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol llai, creu potensial cynhyrchu ynni ar raddfa fwy o wahanol ffynonellau carbon isel ynghyd â chyfle i ddatblygu grid clyfar yng nghefn gwlad i gefnogi twf y sector carbon isel.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Troi gwastraff yn ynni / cyfuno gwres a thrydan (CHP)** – prosiectau ymchwil, datblygu a darparu (ffynonellau amaethyddol a domestig).

- **Rhaglen ranbarthol o fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy** – cynhyrchu cynllun strategol gofodol ei ffocws, ynghyd â buddsoddiad i'w gefnogi, er mwyn cyflymu datblygu rhaglenni ynni adnewyddadwy mawr ar gyfer gwres a thrydan o wahanol ffynonellau drwy fanteisio ar asedau ac adnoddau naturiol y rhanbarth. Bydd y rhaglen yn creu cyfle i ddatblygu ac integreiddio dulliau carbon isel er mwyn cefnogi twf economaidd a mentrau newydd.

- **Astudiaeth ymarferoldeb cynhyrchu hydrogen** – astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer cynhyrchu a'r economi hydrogen yng Nghanolbarth Cymru i ddatblygu clwstwr ynni hydrogen yn y rhanbarth, yn troi'n bennaf o gwmpas ffatri gweithgynhyrchu ceir hydrogen. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn goleuo pecyn cymorth posib i ddatblygu economi hydrogen ranbarthol yn y tymor hir, yn unol â'r flaenoriaeth ar ei gyfer o dan y thema Arloesi.

## Cefnogi

- **Rhaglen trafnidiaeth carbon isel** – gwaith ymarferoldeb i ddeall potensial a gofynion cerbydau carbon isel, a'r seilwaith ategol ar eu cyfer, yn y rhanbarth. Bydd yn cefnogi'r flaenoriaeth o sicrhau bod holl geir newydd y DU 'mwy neu lai'n gollwng dim allyriadau' erbyn 2040, gan ddisgwyl hefyd y daw'r targed hwn ymlaen i 2032.

- **Rhaglen cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer cymunedau a busnesau gwledig** – cymorth ariannol, cyngor a hyfforddiant i annog busnesau yn y Canolbarth i fabwysiadu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy bach, a'r cyfleoedd cysylltiedig ar gyfer datgarboneiddio a thwf glân.

# Canolbarth Cymru Cysylltiedig ac Unigryw Digidol

## Trawsnewid

- **Hybiau Gigabit yn y prif drefi** – cysylltiad band-eang gigabit i fusnesau mewn lleoliadau strategol, wedi'i gysylltu i hybiau technoleg a busnesau newydd, er mwyn annog arloesi a thwf busnes. Mae'r rhain wedi gweithio'n dda yn Iwerddon a medrant hefyd weithredu fel Canolfannau Menter ac Arloesi (wele'r thema Arloesi) drwy gynnig gofod gweithio rheoledig a phecyn cymorth busnes ehangach yn ogystal â hyrwyddo menter a datblygu cymunedol. Gallai Hybiau Gigabit hefyd fod yn sail ar gyfer menter 'pentrefi digidol' yng Nghanolbarth Cymru.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Parhau i ddatblygu band-eang cyflym a gwibgyswllt yng Nghanolbarth Cymru** – bydd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau fel:
  - Blaenoriaethu rhanbarth Canolbarth Cymru ar gyfer rhaglen Cyflymu Cymru II.
  - Buddsoddiad pellach fel rhan o Cyflymu Cymru, wedi'i dargedu'n benodol at Ganolbarth Cymru, er mwyn cyrraedd adeiladau a chymunedau mwy anghysbell.
  - Cefnogi cyflwyno band-eang di-wifr (e.e.tonnau awyr) mewn ardaloedd gwledig anghysbell.
- **Rhwydwaith cynhwysfawr o Barthau Signal Ffôn ar draws Canolbarth Cymru** – bydd Parthau Signal Ffôn yn gwella'r signal ar gyfer ffonau symudol yn y prif gyrchfannau ymwelwyr, safleoedd cyflogaeth, mewn canolfannau masnach ac ar hyd y prif ffyrdd i sicrhau bod gan Ganolbarth Cymru gysylltedd ffôn symudol dibynadwy ac addas i'r pwrpas sy'n perfformio'n dda pan fydd mwy o alw.
- **Rhwydwaith Lorawan Canolbarth Cymru** – drwy Rwydwaith Lorawan gall dyfeisiau pŵer isel (sydd ond yn defnyddio ychydig o bŵer) gyfathrebu â'r rhwydwaith dros bellter hir. Gallai rhwydwaith Lorawan roi Canolbarth Cymru, ac yn enwedig ei sector amaethyddol, ar flaen y gad gyda thechnolegau newydd. Mae'n cynnig cyfle sylweddol i drawsnewid economi a sector ffermio'r Canolbarth ar gyfer monitro da byw, rheoli stâd a rheoli tir. Mae'r arbenigedd ym Mhrifysgol Aberystwyth, a'r Ganolfan Sbectrwm sydd mewn golwg, yn rhoi cyfle i wneud y mwyaf o dechnoleg Lorawan yn y rhanbarth.

## Cefnogi

- **Pecyn cymorth busnes ar gyfer cysylltedd digidol** – cyngor, hyfforddiant a digwyddiadau i helpu busnesau i ecsbloetio a gwneud y mwyaf o fand-eang a Wi-fi gwell, Lorawan a thechnolegau eraill.
- **Wi-fi a dadansoddi data mewn trefi marchnad a chyrchfannau twristiaeth** – wi-fi cyhoeddus am ddim mewn lleoliadau allweddol i gefnogi busnesau lleol a'r economi dwristiaeth. Gall dadansoddi data hefyd helpu i ddeall tueddiadau a niferoedd ymwelwyr a chwsmeriaid yn well. Gellir hefyd ei ddefnyddio fel offeryn marchnata a hyrwyddo gan fusnesau mewn trefi marchnad a chyrchfannau twristiaeth (e.e. i hysbysebu a hyrwyddo).

# Lle

## Trawsnewid

- **Pecyn buddsoddi lle strategol mewn lleoliadau allweddol** – yn amodol ar wneud asesiadau ymarferoldeb, gallai pecyn buddsoddi gynnwys:
  - Cyfleusterau digwyddiadau a chynadledda newydd a modern yn adeiladu ar a chyd-fynd â chyfleusterau presennol y rhanbarth lle gellir dangos bod galw a chyfleoedd buddsoddi.
  - Canolfan Fwyd a Diod ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i werthu cynnyrch lleol a gweithredu fel cyrchfan dwristiaeth. Gallai hefyd fod yn ganolfan ddeori ar gyfer busnesau bach ac i gynnal digwyddiadau.
  - Datblygu ac ehangu atyniadau cyrchfan dwristiaeth strategol o werth uchel i gyfrannu at ddatblygu economi ymwelwyr y rhanbarth. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, twristiaeth antur awyr agored, atyniadau dan do ac atyniadau twristiaeth ddiwylliannol / treftadaeth.
  - Cyfleusterau llety a gwesty gwell i ymwelwyr drwy ddenu buddsoddiad newydd mewn lleoliadau allweddol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Dylai hyn fod yn ar sail asesiad o'r cyflenwad a'r galw er mwyn canfod unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth a meysydd twf posib. Dylid ystyried rôl y sector cyhoeddus, a allai gynnwys:
    - Sefydlu cronfa fuddsoddi ar gyfer darparwyr gwesty a llety ar gyfer ehangu'r cyfleusterau llety presennol a chreu cyfleusterau newydd.
    - Datblygu dull cydgysylltiedig rhanbarthol o annog a denu mewnfuddsoddi yn y rhanbarth.
    - Ymyrryd yn fwy uniongyrchol yn y farchnad, er enghraifft drwy efallai gyd-fuddsoddi mewn partneriaeth â'r sector preifat i hwyluso darparu prosiectau buddsoddi strategol mawr.
  - Buddsoddi yn harbwrs Ceredigion fel catalydd i arallgyfeirio masnach dwristiaeth y rhanbarth a hyrwyddo twf economaidd. Dylai buddsoddi ganolbwyntio'n benodol ar greu mwy o gyfleusterau o safon yn Aberystwyth, Aberaeron a Chei Newydd, a chreu potensial hefyd i ehangu'r ddarpariaeth yn Aberteifi o sicrhau'r caniatadau angenrheidiol. Byddai buddsoddi'n creu rhwydwaith o gyfleusterau marina o safon ar hyd arfordir Ceredigion. Mae gan fuddsoddi yn Aberystwyth ac Aberaeron hefyd botensial i hwyluso datblygu a buddsoddi mewn tir gerllaw'r harbwrs at ddefnydd hamdden. O ganlyniad bydd harbwrs Canolbarth Cymru'n cael effaith adnewyddu ehangach ar y trefi a'r pentrefi cyfagos gan gynyddu gwerth sector twristiaeth y rhanbarth.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Ymgyrch marchnata lle gydgysylltiedig ar gyfer Canolbarth Cymru** – dylai ymgyrch farchnata gydgysylltiedig adeiladu ar waith Croeso Cymru a'r partneriaethau cyrchfannau presennol. Dylai gynnwys, er enghraifft, hyrwyddo asedau twristiaeth y Canolbarth yn strategol, llwybrau cerdded pellter hir (e.e. Ffordd Cymru a Llwybr yr Arfordir), rhaglen ddigwyddiadau helaeth y rhanbarth; ei fusnesau a'i brif drefi. Dylai'r ymgyrch farchnata ganolbwyntio ar ddarpariaeth bresennol y rhanbarth ar gyfer twristiaeth, busnesau, buddsoddwyr a'r potensial i ehangu digwyddiadau yn y Canolbarth.

## Cefnogi

- **Ardaloedd Gwella Busnes** – cyflwyno Ardaloedd Gwella Busnes (BID) yn y prif drefi, lle mae galw yn y sector preifat, i helpu i gynnal hyfywedd lleoliadau masnachu'r rhanbarth. Ar hyn o bryd mae gan Ganolbarth Cymru un BID (Aberystwyth), gyda gwaith ymarferoldeb ar y gweill ar gyfer Aberhonddu a'r Drenewydd. Mae potensial i ystyried ehangu i drefi marchnad neu gyrchfannau eraill ar draws Canolbarth Cymru.

# Trafnidiaeth

## Trawsnewid

- Cysylltedd y rhanbarth drwy wella ffyrdd strategol trawsffiniol a chysylltedd teithio ymlaen drwy 'Rwydwaith Ffyrdd Strategol' Highways England.

## Blaenoriaeth Uchel

- **Coridorau trafnidiaeth strategol: Ffyrdd** – pecynnau o fesurau ar gyfer gwella'r rhwydwaith cefnffyrdd / ffyrdd sirol gan gynnwys yr ymrwymiadau presennol yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2017) (e.e. pwyntiau pasio 2+1 tactegol, lonydd dringo fyny o gyffyrdd prysur, ac ail-lwybro) gan gynnwys rhaglen mannau cul a ffyrdd cysylltu i farchnadoedd prysur, gan gynnwys i'r Gororau. Cysoni â Strategaeth Cludo Nwyddau Canolbarth Cymru a'r Gororau a chysylltu i flaenoriaethau Midland Connect. Mae'r coridorau strategol yn cynnwys:
  - Coridorau trawsffiniol yn cysylltu i Ogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Dyfrdwy, a Gorllewin Canolbarth Cymru (e.e. A458, A44 a'r A483).
  - Yr A44 i'r gorllewin o Langurig.
  - Llwybrau ffyrdd i Ogledd-Orllewin Cymru.
  - Coridor Arfordir Strategol Gorllewin Cymru'n cysylltu Gogledd a De-Orllewin Cymru
- **Coridorau trafnidiaeth strategol: Rheilffyrdd** – gwelliannau fel trenau cynt ar hyd Rheilffordd y Cambrian; annog cludo nwyddau ysgafn ar wasanaethau cludo teithwyr ar hyd Prif Reilffordd y Cambrian / Arfordir y Cambrian; a datblygu Cyfnewidfeydd strategol yn y prif orsafoedd rheilffordd.
- **Pecyn masnach cludo a logisteg digyfyngiad** – cwrdd â'r ymrwymiad cyfreithiol i ddatgarboneiddio trafnidiaeth, gan gynnwys cludo nwyddau (canolfannau cyfuno cludiant trydan / gwledig), canolfannau cyfuno a pharcio i gerbydau cludo nwyddau. Gweithredu argymhellion Strategaeth Cludo Nwyddau Canolbarth Cymru a'r Gororau.

## Cefnogi

- **Pecyn o fesurau ar gyfer y rhwydwaith Cysylltu Gwasanaethau Trafnidiaeth** – yn cynnwys ymyriadau fel gwasanaeth llawn bob awr ar hyd Rheilffordd y Cambrian i Birmingham International; ehangu Rheilffordd Calon Cymru a rhai gwasanaethau Prif Reilffordd y Cambrian i Crewe er mwyn cysylltu i HS2 / Maes Awyr Manceinion; a datblygu llwybrau teithio strategol TrawsCymru a chanolfannau / cyfnewidfeydd bysus strategol pellter hir gyda thrafnidiaeth ymatebol Integredig.
- **Pecyn o fesurau teithio llesol** – pecynnau cymorth ar lefel awdurdod lleol i annog pobl i gerdded a beicio, ac ar gyfer llwybrau trawsffiniol pellter hir (heb benderfynu arnynt eto). Bydd hyn yn helpu i ehangu trafnidiaeth gynaliadwy a gallai hefyd gefnogi'r sector twristiaeth.
- **Galluogi cysylltedd gwledig** – mesurau fel seilwaith gwefru cerbydau trydan, priffyrdd clyfar (wedi eu cysylltu i Ffordd Cymru), hybiau ffyrdd a rheilffyrdd a thocynnau integredig, a thrafnidiaeth ymatebol integredig.

# Atodiad B: Datblygu'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru

Cafodd y Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru eu datblygu yn y camau canlynol:

## Datblygu'r Data Cychwynnol ac Adnabod y Problemau

Cafodd sefyllfa gychwynnol yr amodau economaidd-gymdeithasol eu datblygu i oleuo'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer y rhanbarth. Adolygwyd ac aseswyd yr amodau cychwynnol i ddeall maint a daearyddiaeth economi, poblogaeth, seilwaith trafnidiaeth a seilwaith ehangach Canolbarth Cymru. Cafodd y rhagolygon poblogaeth a thai hefyd eu hadolygu, felly hefyd y dyraniadau yn y Cynllun Lleol, er mwyn deall y rhagolygon twf diweddaraf ar gyfer y rhanbarth. Roedd pwrpas yr ymarfer mewn dwy ran, yn gyntaf er mwyn deall y tueddiadau demograffig a marchnad lafur tymor byr a thymor hir, ac yn ail er mwyn penderfynu pa mor dda y mae'r seilwaith a'r amgylchedd presennol yn gweithio a ble y mae angen addasu.

## Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghori ac ymgysylltu helaeth i ategu'r blaenoriaethau yn y ddogfen hon. Roedd y dull o ymgynghori'n rhoi blaenoriaeth i grwpiau ffocws yn cynnwys gwahanol randdeiliaid, gyda thrafodaethau un-i-un i ddilyn lle'r oedd angen. Roedd yr ymgysylltu'n canolbwyntio ar randdeiliaid yn cynnwys aelodau o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, aelodau etholedig ac uwch-swyddogion awdurdod lleol, datblygwyr prosiectau, sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru, a busnesau. Roedd yr ymgysylltu â busnesau'n cynnwys nifer o weithdai busnes, trafodaethau un-i-un gyda chwmniau rhanbarthol pwysig a busnesau a allai greu twf economaidd, ynghyd ag arolwg ar-lein yn holi busnesau'r rhanbarth. Canolbwyntiodd yr ymgynghori ar helpu i ehangu'r rhestr hir o brosiectau posib, adnabod prosiectau mewn gwahanol gamau yn eu datblygiad o achosion busnes sefydledig i syniadau newydd. Bu'r ymgynghori hefyd yn gymorth i gadarnhau'r ddealltwriaeth o'r problemau a'r cyfleoedd, y rhagdybiaethau o ran y rhagolygon twf, a'r dyraniadau tir ar gyfer tai a chyflogaeth. Yn ogystal, bu'r ymgynghori a'r gwaith o ddadansoddi'r data cychwynnol yn gymorth i adnabod y bylchau yn y rhestr hir o brosiectau cychwynnol.

Cyflwynir rhestr lawn o'r cyrff y gwnaethom ymgynghori â nhw, fel rhan o ddatblygu'r Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer y rhanbarth, yn Atodiad B.

## Rhestr Hir o Brosiectau

Un o'r prif gamau wrth benderfynu ar y blaenoriaethau yn y ddogfen hon oedd adnabod rhestr hir o 'brosiectau' neu ymyriadau a allai ddarparu twf economaidd cynhwysol a thrawsnewidiol yng Nghanolbarth Cymru. Roedd y rhestr hir o syniadau prosiect yn cynnwys tua 80 o brosiectau'n ymwneud â phethau fel:

- Arloesi a thwf busnesau;
- Trafnidiaeth;
- Cysylltedd digidol;
- Addysg, sgiliau a hyfforddiant;
- Ynni;
- Arloesi a thwf busnesau; a
- Twristiaeth a diwylliant.

# Blaenoriaethu a Chreu Rhestr Fer o Brosiectau

Cafodd yr ymyriadau eu blaenoriaethu er mwyn llunio rhestr fer o brosiectau allan o'r rhestr hir. Pwrpas hyn oedd adnabod pa brosiectau sydd â photensial i gynhyrchu twf economaidd trawsnewidiol ar draws y rhanbarth, cynhyrchu elw economaidd a denu buddsoddiad gan y sector preifat. Sgoriwyd yr ymyriadau yn ôl a oeddent yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a ddisgrifir yn Fframwaith Gweithredu'r Bartneriaeth, ac â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd.

Blaenoriaethwyd ar lefel rhaglen yn hytrach na phrosiect o gofio bod y mwyafrif llethol o ymyriadau yn y cam datblygu cynnar. At ei gilydd ystyriwyd bod yr ymyriadau'n gysyniadau'n hytrach na'n brosiectau wedi eu datblygu'n llawn lle'r oedd astudiaeth dechnegol neu broses sicrhau ansawdd wedi'i chyflawni i sicrhau ymrwymiad ac i gael partneriaid i fod yn rhannog mewn prosiect.

Yna cyflwynwyd y rhaglenni blaenoriaeth i Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i'w trafod, wedi'i ddilyn gan gyfnod o ymgynghori ag aelodau'r bartneriaeth ar y blaenoriaethau yn y ddogfen hon.

# Adrodd

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y blaenoriaethau economaidd strategol terfynol ar gyfer Canolbarth Cymru. Mae'n crynhoi'r prif broblemau sy'n rhwystro twf economaidd y rhanbarth ac yn cyflwyno'r cyfleoedd i oresgyn y problemau hyn ynghyd â rhaglen o ymyriadau ar gyfer darparu twf economaidd trawsnewidiol a chynhwysol yn y Canolbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

# Atodiad B: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cafodd y sefydliadau, grwpiau a'r busnesau canlynol eu cynnwys yn natblygiad y Blaenoriaethau Economaidd Strategol ar gyfer Canolbarth Cymru. Roedd yr ymgysylltu hwn yn bennaf drwy sesiynau gweithdy â grwpiau o randdeiliaid. Cynhaliwyd hefyd arolwg ar-lein i holi busnesau a sefydliadau yn y rhanbarth:

- Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cabinet Cyngor Sir Ceredigion
- Cabinet Cyngor Sir Powys
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Busnes Cymru
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Croeso Cymru
- Twristiaeth Canolbarth Cymru
- TraCC
- Prifysgol Aberystwyth
- Canolfan Arloesi a Menter Aberystwyth
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Cyswllt Ffermio
- Antur Teifi
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-Orllewin a Chanol Cymru
- Hyfforddiant Cambrian
- Coleg Ceredigion
- Coleg Castell Nedd Port Talbot
- Coleg y Mynyddoedd Du
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
- Partneriaeth Camlesi Trefaldwyn
- Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth
- Canolfan Treftadaeth Canolbarth Cymru
- Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Byw'n Wyrdd fel Bywoliaeth

Roedd yr ymgysylltu â'r sector preifat (gweithdai busnes a chyfweliadau ag unigolion) yn cynnwys:

- Y Ganolfan Dechnoleg Amgen
- Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
- Maes Awyr Gorllewin Cymru
- Thales
- Volac International

- Qinetiq
- Invertek Drives
- Riversimple
- Wynnstay
- Evabuild
- Boys and Boden
- Rebo UK
- Tastetraders
- Paramgan Hutchinson
- G Jones Construction Ltd
- Makefast
- Newmor
- Potters Group
- TSR Surveyors
- Compact Orbital gears
- Radnorshills Water
- PCI
- Dunbia
- Randall Parker Foods
- BVG Airflo Group
- The Marina Group
- Forest Holidays
- Welsh Sausage Company
- CastAlum
- Stagecraft
- Lanyon Bowdler
- Motif Creative

aecom.com